# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**RHIF 129** **HYDREF 1986**

# DON JENKINS

GOFID MAWR i holl weithwyr a chymwynaswyr Y Dinesydd yw colli Don Jenkins a fu farw ar ddydd Gwener Hydref 3.

Chwithdod hefyd inni gael ei gwmni am amser byr. Sylweddolwn ein bod wedi cael ei adnabod am gyfnod cymharol fyr - a'n colled ni oedd hynny. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn a'i briod Megan, a'r plant Sian a Wyn, ac fe drysorwn y profiad o gael adnabod Don - trysorydd abal i'r Dinesydd, a chyfaill triw inni i gyd. Braint oedd cael ei adnabod - a mawr fydd ein colled.

Diolchwn i'w weinidog, Y Parchedig Eifion Powell am y deyrnged a gyhoeddir isod.



Un o'r Betws, Rhydaman oedd Don Jenkins, Trysorydd y Dinesydd. Gwas Sifil ydoedd ef wrth ei alwedigaeth. Cymerodd ei waith ef i Lundain am gyfnod, lle y bu'n weithgar yn Eglwys Bresbyteraidd Leytonstone ac ymhlith Cymry Llundain. Bu wedyn yn teithio Cymru o gwr i gwr gyda'i waith, yn cyfarwyddo wrth arolygu, ac yn gofalu am les ei gyd-weithwyr. Yr oedd ffyrdd cefn gwlad Cymru yr un mor gyfarwydd iddo â'r priffyrdd a'r traffyrdd ac yntau'n mawrygu'r fraint o gael dod i adnabod ei famwlad. Wedi iddo ymddeol bu'n wasanaethgar gyda Cymdeithas y Gweision Sifil Ymddeoledig.

Yr oedd Don yr un mor wasanaethgar a bonheddig a chynorthwyol y tu allan i'w alwedigaeth ac yr ydoedd wrth ei waith beunyddiol. Yr oedd ef yn ŵr y gellir dweud yn gywir amdano fod gwasanaethu eraill yn bwysicach o lawer yn ei olwg nac ennill na safle nac awdurdod na chanmoliaeth bersonol. Yr oedd ef yn hoffi pobl ac yr oedd ef wrth ei fodd yn gwasanaethu pobl ac yn cynorthwyo'r mudiadau da hynny a oedd â'u nod ar hybu lles cymdeithas ac unigolion.

Yr oedd Mr. Don Jenkins yn ŵr ymarferol ei ddiddordeb a'i gyfraniad. Nid dyn a welai yr angen am gyflawni rhyw waith arbennig ac a ai ati i dynnu sylw eraill at yr angen ydoedd ef, ond un a gyflawnai'r gwaith anghenrheidiol yn ddistaw, yn effeithiol ac yn ddi-ffwdan. Ei ddiddordeb ymarferol mewn hybu hwylustod cysylltiad pobl â'i gilydd a'i symbylodd i weithio mor ddiwyd gydag aelodau'r Pwyllgor Trafnidiaeth pan ymwelodd yr Eisteddfod Genedlaethol â Chaerdydd ym 1978, a'r un modd pan ymwelodd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd â'r ddinas ym 1985. Y tro hwnnw hefyd bu ei wybodaeth am faterion ariannol o gymorth i'r trefniadau. Mae llawer o Gymry Caerdydd yn drwm yn nyled Don am gyngor doeth ac am gymorth parod ac amserol.

Cyflawnodd Don Jenkins waith ardderchog fel Ysgrifennydd Ariannol, ac fel diacon, yn Eglwys Annibynnol Minny Street. Yn gywir a gofalus ynglyn â'r cyfrifon ariannol yr oedd ef yr un mor gywir a thrwyadl yn ei ofal am les a hwylustod ei gyd-aelodau. Y diddordeb byw hwnnw mewn pobl a'u pryderon a'u hanghenion a'i arweiniodd ef i roi oriau maith o'i amser a'i wasanaeth bob wythnos i Gymdeithas y Samariaid. Yr oedd ganddo glust amyneddgar i wrando a chalon fawr i gynorthwyo eraill.

Meddai Don Jenkins ar gorff lluniaidd, meddwl effro, ysbryd hoffus a synnwyr digrifwch a oedd yn finiog heb fod yn frathog, ond a lapiai ei hun yn gyfeillgar o gwmpas ei gydnabod. Er tristed oedd gweld y cynheddfau glân a disglair hyn yn cael eu handwyo gan yr afiechyd creulon a'i goddiweddodd, ymladdodd yr aflwydd yn ddewr a di-ildio gyda chymorth cadarn ei briod Megan a chefnogaeth ei blant Siân a Wyn, a chadwodd ei urddas cynhenid yn ddi-anaf hyd y diwedd.


Ei flinder mwyaf wrth i'w nerth ddihoeni oedd ei anallu cynyddol i fod o wasanaeth i eraill. Gyda marwolaeth Mr. Don Jenkins, collodd Y Dinesydd was a swyddog rhagorol; Eglwys Minny Street un o'i chedyrn anwylaf; y Samariaid gyfarwyddwr tyner a diogel, a Chymry Caerdydd gyfaill cywir a da.

# Y BRIFYSGOL GAEËDIG?

AR WAETHA'R ffaith y bydd yn arwain at gwtogi a cholli swyddi croesawyd Cynllyn Academaidd newydd Coleg y Brifysgol, Caerdydd, gan fwyafrif y staff a'r myfyrwyr.

Paratowyd y cynllun gan bwyllgor o saith o ddeoniaid y Coleg, heb unrhyw ymgynghoriad â'r staff academaidd, yn sgil pwysau cynyddol oddiwrth yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth a Phwyllgor Grantiau'r Prifysgolion, yr UGC. Yn ôl rhai, roedd yr Adran Addysg ar un adeg yn ystyried gadael i'r Coleg fynd i fethdaliant, ond fe'i perswadiwyd i roi un cyfle arall i'r awdurdodau.

Mae'r Cynllun - yr un cyntaf o'i fath yn hanes Coleg y Brifysgol - yn datgelu nifer o ffaeleddau difrifol yng ngweinyddiad y Coleg. Ym 1984-85, er enghraifft, roedd Caerdydd yn gwario £1 miliwn yn fwy ar gyflogau staff academaidd na'r cyfartaledd trwy Brydain. Roedd yna "anghyfartaledd afiach" rhwng cyflogau academaidd a'r dau ben arall i wariant adrannol, sef cyflogau staff an-academaidd a gwariant ar waith yr adran a labordai. Yn y meysydd yma roedd gwariant y Coleg yn is na'r cyfartaledd Prydeinig, ac roedd hynny, meddid, "yn lleihau'n sylweddol gallu'r adrannau gwyddoniaeth a pheirianneg yn arbennig i ddilyn trywydd ymchwil a dysgu yn egniol".



Rhaid i'r Cynllun Academaidd ynghyd â chyllideb am y flwyddyn ariannol 1986/87 fod yn nwylo'r Adran Addysg erbyn diwedd mis Hydref. Mae'n ofynnol hefyd i'r Coleg anfon adroddiadau ariannol misol i'r Adran Addysg a pharatoi cynlluniau ariannol tymor hir a fydd yn annelu at ddileu'r dyled erbyn 1989/90 erbyn diwedd y flwyddyn, yn ogystal ag ail adrodd ymrwymiad y Coleg i fwrw ymlaen gyda UWIST i bennodi Prifathro i'r sefydliad unedig newydd erbyn 31 Mawth 1987.


Ynghyd â'r Cynllun Academaidd newydd a'r asesiad o berfformiad yr adrannau, derbyniodd y staff gopi o lythyr,

Parhad ar dudalen 3.

# APÊL ABERGWAUN

Syniad sydyn a ddaeth i ben un o ddinasyddion Caerdydd oedd codi cronfa Apel Abergwaun. Fel un a brofodd o groeso pobl 'y pentigili', roedd yr awydd yn fawr i ddiolch yn fawr ac yn arbennig felly oherwydd y tywydd drycinol. Gan i'r tywydd rwystro tuag ugain mil o bobl rhag dod i'r Maes, wynebai'r Eisteddfod golled gwbl annheg o annisgwyl.

Wedi dychwelyd i Gaerdydd, penderfynodd Dilys Lloyd fynd ati i chwilio ffordd o leddfu ychydig ar y golled ac i geisio dangos i weithwyr gwirfoddol yr ardal gymaint ein gwerthfawrogiad o'u hymdrechion dros gyfnod o dair blynedd. Hefyd, oherwydd darpariaeth eang y radio a'r teledu, fe gafodd miloedd ar filoedd Eisteddfod di-fwd yng nghlydwch eu cartrefi a hwyrach y byddai'r bobl hyn yn barod i ymateb i apêl.



Sut i fynd ati? Wel, fe droes Dilys at Radio Cymru ac yn arbennig at 'Helo Bobl' a chael cydweithrediad parod ond iddi hi fynd yn gyfrifol am drefnu'r cyfan. Felly ar fore plygeiniol y 12fed o Awst, dyma Dilyn yn cael mynd i'r stiwdio at Hywel Gwynfryn i fwrw'r cwch i'r dŵr. Tybed sut fyddai'r helfa?

Drannoeth, cafodd y postmon fwy o waith nag arfer a dyna fel y bu hi am dros fis nes penderfynu codi'r rhwyd o'r dyfroedd am y tro olaf. Deuai'r llythyron wrth y cannoedd mewn amlenni o bob lliw a phob llun, a symiau o bunt i ddau gan punt a'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys llythyr o werthfawrogiad o'r hyn a gafwyd gan bobl Abergwaun a chan y darlledwyr. Deuent o Gymru gyfan a thros y ffin a hyd yn oed o'r Cyfandir.

Wedi'r lansio ar 'Helo Bobl', fe gafwyd cydweithrediad parod rhaglenni eraill megis 'Amser Coffi', 'Stondin Sulwyn', 'Post Prynhawn' ac ar y teledu, 'Newyddion Saith' a S4C. Fe gafodd yr apêl sylw hefyd ar Radio Wales a chan y Wasg. Rhwng pawb a phopeth roedd y gronfa'n codi'n galonogol dros ben o ddydd i ddydd. Pedair wythnos union i'r diwrnod y lansiwyd y peth safai'r swm yn £8,070.

Erbyn cael y sgadenyn olaf i mewn roedd £10,000 yn y Gronfa. Bellach, mae baich y postmon dipyn yn ysgafnach wrth ddirwyn ei ffordd i 182 Ffordd Caerdydd, Llandaf, ond yr hyn sy'n gysur mawr i Dilys yw bod dyled annisgwyl Pwyllgor Abergwaun wedi'i hysgafnhau a hynny oherwydd ymateb gwych gymaint o gefnogwyr 'y pethe'.

# EISTEDDFOD CASNEWYDD

Er pob anhawster, fe fwynheais Steddfod Abergwaun gymaint, os nad yn well na phob Eisteddfod arall, ag eithrio un funud arswydus! Mae'r atgof am y funud yma yn para i anfon crwybr i lawr fy nghefn.

Roedd yn fore Iau ac oherwydd anwadalwch y tywydd roedd Cyfarfod yr Orsedd dan do. Fel y gŵyr y cyfarwydd, ar fore Iau y croesewir y newydd-ddyfodiaid anrhydeddus i rengoedd Gorsedd y Beirdd a cheir awyrgylch amlwg o lawenydd a balchder. (Dyma gyfle i longyfarch swyddogion yr Orsedd ar ddewis Golygydd 'Y Dinesydd' i'r Wisg Wen).

Aeth y cyfarfod ymlaen yn ddidrafferth hyd nes i'r Archdderwydd Elerydd gyhoeddi ei fod yn cloi'r Orsedd, ac rwy'n dyfynnu ei eiriau "....hyd nes cawn gwrdd yng Nghasnewydd, Gwent, yn 1987".

Rydym yn gwybod ers deunaw mis y bydd y Steddfod yng Nghasnewydd yn 1988 ac mae'r gwaith paratoi wedi mynd ymlaen yn dawel bach ar wahanol lefelau ers dros flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod wrthi'n ddygn, ac mae'r pwyllgorau sy'n gyfrifol am gynnwys y rhaglen wedi gwneud camau breision, ond hyd yn hyn, roedd yno ymdeimlad o baratoi ar gyfer y dyfodol pell.

Bellach mae'r cyfnod o hamddena drosodd ac mae'r wybodaeth y bydd y Seremoni Cyhoeddi mewn llai na naw mis wedi dod ag awyrgylch gwbwl wahanol i weithgareddau criw Casnewydd. Wyddoch chi fod rhai eisoes wedi gofyn am lety ar gyfer Awst 1988?

'Blas Cas' yw'r enw a ddewiswyd gan yr Is-bwyllgor Ieuenctid ar gyfer gweithgareddau'r Wyl yn 1988, ond 'Blas Brys' sydd orau i ddisgrifio bywyd yng Nghasnewydd y dyddiau hyn. Fe fydd Cyngor yr Eisteddfod yn cyfarfod yng Nghasnewydd ym mis Hydref ac un cysur yw y ffaith y bydd gennym fwy na digon o weithgarwch paratoi yn dystiolaeth i uchelwyr yr Eisteddfod ein bod o ddifri yma.

Gobeithio na fydd galw ar i Dilys Lloyd ddod i'r adwy ymhen dyflwydd!

Gwynn Tudno.

GWYL DDRAMA GENEDLAETHOL
URDD GOBAITH CYMRU
BRYNAMAN A'R CYLCH 1986

Eleni cynhelir Gŵyl Ddrama gyntaf Urdd Gobaith Cymru ym Mrynaman rhwng 21-26 Hydref, 1986.

Mae cwmniau o bob rhan o Gymru yn cymryd rhan gyda'r mwyafrif ohonynt yn dod o'r De. Fel arfer mae cystadlaethau dramau un act yr Urdd yn cael eu cynnal yn yr Eisteddfod, ond eleni, am y tro cyntaf, fe'u cynhelir ar wahan mewn Gŵyl arbennig i'r Ddrama.



Yn ogystal â'r cystadlaethau, cynhelir Noson Agoriadol, yn cynnwys Seremoni a Pherfformiad o Raglen Deyrnged i'r enwog RYAN. Yna ar nos Sadwrn ceir perfformiad o 'Llygad y Geiniog' gan gwmni lleol 'Y Gwter Fawr'.

Nid cystadlu yw unig fwriad yr Wyl ond rhydd gyfle i aelodau'r Urdd gymryd rhan mewn gweithdai ar wahanol agweddau o'r theatr. Mae'r gweithdai yn dilyn y cystadlaethau y boreau canlynol.

I gloi'r wythnos ceir Cymanfa Ganu Fodern.

Bydd y Trefnydd yn falch i roi mwy o wybodaeth pe dymunwch neu ateb unrhyw gwestiynau.

Gareth James,
Trefnydd yr Wyl,
Swyddfa'r Urdd,
127 Heol yr Orsaf,
PORT TALBOT,
SA13 1NR.
Ffôn: (0639) 887149

ANRHYDEDDU RAY EVANS

'Seiat, Cwrdd Gweddi, Dorcas a Chwrdd Plant' - a gallai'r bardd fod wedi ychwanegu, a dosbarth Ysgol Sul. Oherwydd yr ym ni, ddosbarth gwragedd Ysgol Sul Heol y Crwys yn meddwl y byd o'n dosbarth. Down at ein gilydd bob blwyddyn tua diwedd yr haf i gymdeithasu, naill ai ar drip bws neu dros swper. Fel arfer, dathlu'r ffaith ein bod ni yma o hyd a wnawn. Ac mae hynny'n ddigon. Ond eleni, yr oedd gennym wir destun dathlu. Y mae Ray Evans, enillydd y Fedal Ryddiaeth, yn un ohonom. Mae'r dosbarth i gyd yn cydlawenhau â hi. Yn wir, mae mwy nag un wedi dweud, "On'd yw hi'n beth od, wi'n teimlo fel petawn i fy hunan wedi cael anrhydedd". A dyna deimlad pawb. Rhyw nos Lun yn ddiweddar, buom yn swpera yn un o dai bwyta'r ardal a chawsom noson ardderchog. Nid oedd yn rhaid i neb ddarparu bwyd na golchi'r llestri, ac yr oedd hynny'n beth mawr. Braidd yn swil oedd Ray o wisgo'r Fedal yn gyhoeddus ond cafodd y Fedal fynd o law i law a phawb, wrth gwrs yn dweud, "Dyma'r agosa y bydda i byth at Fedal Ryddiaeth". Wrth i'n hathro, y Dr. John Gwynfor Jones, gyflwyno iddi glod y dosbarth, ac wrth wrando ar ddarlleniad o'i gwaith, y tu ôl i wên lydan Ray a'r llygaid mawr, yr oedd yn bosibl gweld y ferch fach ddireidus y cwrddwn â hi yn 'Llyffant'. Mwyniant pur oedd bod yn ei chwmni y noson honno ac mae'n diolch i Ann Parry am drefnu'r wledd yn fawr.


OS AM WERSI PIANO, cysylltwch â
Joy Davies, B.Mus.,L.T.C.L.
Ffôn: 752173

Parhad o dudalen 1.

dyddiedig 10 Gorffennaf, 1986 a anfonwyd gan Gadeirydd yr UGC, Syr Peter Swinnerton-Dyer, at Syr David Hancock, yr Ysgrifennydd Parhaol yn yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth. Ynddo soniodd am farn yr UGC:

"Not for the first time they expressed serious concern about the College's financial position, the inadequacy of its financial monitoring and management, the neglect of maintenence over the last few years, and the apparent failure of the authorities of the College to recognise the seriousness of the situation. Three years ago UCC had no reserves; since then they have built up a deficit of almost £4 million. That record distinguishes them sharply from ever other institution on our grant list."

O leia nawr mae gan y Coleg Gynllun Academaidd, sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion, yn ogystal â chlustnodi'r adrannau hynny lle y dylid cwtogi. Mae'r cynllun yn rhannu'n ddau - y rhan gyntaf yn argymhellion y mae'n rhaid eu gweithredu'n llawn ac ar unwaith, ac ail ran bydd yn rhaid ei weithredu os nad yw rhan un yn arwain at gwtogiad digonol mewn gwariant.

Yn ôl rhan un bydd y newidiadau canlynol yn dod i rym:

- Ymddeol yn gynnar a rhewi swyddi gwag yng nghyfadran y Celfyddydau.
- Dileu'r Adran Hanes Cymru.
- Colli 18 o swyddi yn yr Adran Addysg.
- Dileu'r Ysgol Newyddiaduraeth.
- Dileu'r Ganolfan Astudiaethau Poblogaeth.
- Dileu cwrs Astudiaethau Theatr.
- Colli 5 o swyddi yn y Gyfadran Beirianneg.
- Colli 23 o swyddi yn y Gyfadran Gwyddoniaeth.
- Uno'r adrannau Mathamateg Gymhwysol a Mathamateg Bur

Oni arbedir digon o arian trwy'r newidiadau uchod argymhellir:

- Dileu'r Adrannau Cymraeg, Astudiaethau Crefydd, Clasuron, Archeoleg, yr Ysgol Gwaith Cymdeithasol, Gwleidyddiaeth, yr Ysgol Gwyddor Cartref, Meteleg, Ymelwad Mwynol, Gwyddoniaeth Planhigion, a chwtogi'n sylweddol ar yr adrannau Swoleg a Meicrobioleg.

O ystyried maint dyled ariannol y Coleg mae'n weddol sicr y bydd yn rhaid gweithredu ail ran y cynllun. A disgwylir y byddai hynny hefyd yn dderbyniol i'r rhelyw o'r staff gan nad ydyw'n golygu y bydd yn rhaid wrth diswyddo gorfodol.

Ond mae nifer o'r staff yn ofni'n fawr na fydd hyd yn oed hynny'n mynd yn ddigon pell. Eu honiad nhw yw bod awdurdodau'r Coleg yn parhau i orwario ar gynlluniau adeiladu, a hynny heb yn wybod i'r UGC a'r Adran Addysg.

Credir bod y Coleg bellach wedi llwyddo i werthu'r Ysgol Gwyddor Cartref yn Heol Llantrisant i'r BBC am oddeutu £2.7 miliwn. Os gwir hynny, gallai fod yn gyfraniad sylweddol at ddileu dyled y Coleg, ond credir fod y cyfan wedi'i glustnodi ar gyfer adeiladau newydd.

Eisoes adnewyddwyd maes parcio'r prif adeilad ym Mharc Cathays, a honnir bod cynlluniau ar y gweill i godi estyniad gwerth hanner miliwn o bunnau i'r Adran Addysg i wneud lle i rai o staff y Coleg Gwyddor Cartref, i adeiladu canolfan chwaraeon newydd gwerth £1.5 miliwn, yn ogystal â chanolfan ddiwydiant newydd. Byddai mynd ymlaen â'r cynlluniau yma yn golygu na fyddai'r un geiniog o'r incwm a gaed o werthiant y Coleg Gwyddor Cartref yn mynd tuag at ddileu'r ddyled.

## CIC

Ffurfiwyd cymdeithas newydd sbon yn ddiweddar o dan y teitl CIC, Cymdeithas Ieuenctid Cristnogol - gyda'r nod o drefnu gweithgarwch i'r bobl ifainc yng Nghyfundeb Annibynwyr Dwyrain Morgannwg.

Ar Dachwedd y pymthegfed, yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, Pontypridd, bwriedir cynnal prynhawn o weithgarwch ac adloniant. O dri o'r gloch tan chwech fe fydd yna gystadleuathau chwaraeon i ferched a bechgyn oedran Ysgol Gyfun. O chwech tan hanner awr wedi saith cynhelir Cwis Beiblaidd, a rhwng wyth o'r gloch a hanner awr wedi naw - disgo a chyngerdd pop.

Y bwriad yw y bydd timoedd o wahanol Eglwysi'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Heb son am yr hwyl a'r sbri, fe fydd yna darian i'r tim fydd wedi ennill y mwyaf o farciau ar ddiwedd y dydd.

Gobeithir y cawn gefnogaeth gref ac y bydd y brwdfrydedd yn heintus o du'r Eglwysi'r Cyfundeb.

Y Parch John Davies

## DOSBARTHIADAU NOFIO


Ryn ni'n ymfalchio yng Nghaerdydd bod cymaint o gyfle bywyd amrywiol i'n plant ar ôl yr ysgol. Mae llawer ohonom ni rieni yn ardal Caerdydd serch hynny wedi bod yn gofidio bod cymaint o'r gweithgaredd hamdden i'n plant trwy'r Saesneg. Ryn ni'n gorlenwi oriau hamdden ein plant gyda Judo, Guides, Brownies, Scouts, Aerobics, Gymnastics, Ballet, Merlota, Nofio ac mae'r gwbwl yn cael ei gyflwyno trwy'r Saesneg.

O'r diwedd mae'r Awdurdod wedi mentro cynnig Nofio trwy gyfrwng y Gymraeg i ni, yn Ysgol Gyfun Radur, ar nos Wener.

Dosbarthiadau Dechreuwyr - 5.00-5.30; Gwella'r Nofio - 5.30-6.00; Nofio i'r Teulu - 6.00-7.00

Diolch i Mrs. Ann Evans am drefnu; diolch i Bethan Williams am ddysgu. Rhaid inni Gymry Cymraeg a'r di-Gymraeg gefnogi.

Ryn ni wedi llwyddo i gael Addysg Gymraeg i'n plant. Rhaid mynnu gweithgaredd oriau hamdden iddyn nhw yn y Gymraeg hefyd bellach.

**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**

**HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD**


## BWTH RUTH



WEL HELO, A pha hwyl sydd? Braf cael eich cwmni wedi cyfnod gwyliau'r haf. Mi rydw i newydd fod yn pori yn atodiad Cyngor De Morgannwg ar Addysg Oedolion ac wedi rhyfeddu at y dewis eang o gyrsiau sydd ar gael - Astudiaethau Merched; Edrych ar ôl yr Henoed yn eu cartrefi; ymlacio; coginio Indiaidd, heb sôn am yr hen ffefrynnau - yoga, atgyweirio hen ddodrefn a choginio i ddynion!!

O weld y cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn ystod y dydd i'r rhai ohonoch chi sydd wedi ymddeol dwi'n credu'r ymddeolai'i 'n gynnar!

Mi wn am nifer ohonoch chi fydd o hyn 'mlaen wedi bod ar gwrs adnewyddu dodrefn a yoga cyn cinio ar ddydd Llun - gwyn eich byd!

A chithau ddynion brwdfrydig - pwyll hefo'r cadw'n heini eleni. Beth am ddod hefo Helen Owen a minnau i ddysgu chwarae golff - mi fydd yn esgus i fynd am dro un ai i Benarth at y môr neu i Bontypridd i'r mynydd yn bydd?

Erbyn i mi gael eich cwmni chi nesa mi fyddai'i wedi ymaelodi hefo o leia un cwrs! Peidiwch anghofio fod yna gyrsiau penwythnos digon difyr rhwng rwan a'r Nadolig ar Addurniadau'r Ŵyl, coginio ac ati.

Rown i'n teimlo fod paratoi i lenwi nosweithiau hir y gaeaf yn arwydd ei bod yn hydrefu er nad ydw i wedi gweld na chasglu cnwd da o fwyar duon eto mae'r afalau yn fychan ag aeron ysgawen yn hwyr eleni - ond mi ddon.

Edrych mlaen i'ch gweld yn y dosbarth gwaith coed - Hwyl!

---

5, Maes yr Awel,
Radyr.
10 Medi, 1986

Annwyl Shan Emlyn,

Dymuna Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd ddiolch yn fawr i'r Dinesydd am hysbysebu ei chyfarfodydd yn ystod y tymor diwethaf. Wrth amgau siec am £10 fel cydnabyddiaeth fechan, efallai y caf hefyd ddiolch ymlaen llaw am eich caredigrwydd eto yn ystod tymor 1986-87.

Bydd y Gymdeithas yn dathlu ei chanmlwyddiant yn ystod y tymor hwn. Pleser o'r mwyaf fyddai cael croesawu aelodau newydd o blith darllenwyr y Dinesydd i ymuno yn y dathliad. Yn ddiffuant a gyda diolch eto.

GLYN OWEN.

---

GENI:
Llongyfarchiadau i Nia a Dudley Newbury, Thornhill, ar enedigaeth eu merch Cadi. Da yw deall bod y fam a'r ferch yn holliach ac bellach wedi dychwelyd adref o Ysbyty'r Brifysgol.

Braf hefyd yw deall bod chwaer Dudley, Rhianydd, ar wella yn dilyn damwain car go ddifrifol. Pob dymuniad da iddi - yn enwedig oddiwrth ei chydweithwyr yn HTV sy'n edrych ymlaen at ei chroesawu'n ol yn fuan.

GWELLHAD BUAN:
Dymunwn adferiad buan i un arall o staff HTV yng Nghroes Cwrlwys, sef Stella Mair Thomas. mae Stella yn Ysbyty Pentwyn am ychydig ddyddiau a gobeithiwn ei gweld yn ol wrth ei desg cyn hir.

# LLYTHYRAU

10, Kyle Crescent,
Yr Eglwysnewydd,
CAERDYDD.
CF4 1SW

At: Olygydd Y Dinesydd.

Annwyl Syr,

Yn gynharach eleni methais a chofrestru genedigaeth fy mab yn Gymraeg yn swyddfa gofrestru Caerdydd; roedd yn rhaid i mi deithio i Bontypridd gan nad oedd neb yng Nghaerdydd a allai siarad Cymraeg yn ddigon da i gwrdd a gofynion y gyfraith. Cefais gymorth gan y Cyng. Chris Franks - a chefnogaeth Gwilym Jones, A.S. - pan ofynnais i Gyngor De Morgannwg benodi rhywun a allai ymgymryd a chofrestru drwy gyfrwng y Gymraeg. Deallaf gan y Cyngor eu bod nhw nawr wedi penodi rhywun cymwys ar gyfer y gwaith. Felly, gaf i annog rhieni i wneud yn siwr eu bod yn cofrestru eu plant yn Gymraeg o hyn ymlaen.

Yr eiddoch yn gywir,

HYWEL MERRYN.

---

Yr Adran Gymraeg,
Coleg Prifysgol Cymru,
ABERYSTWYTH,
Dyfed.

Annwyl Gyfeillion,

'Dw i newydd gael fy mhenodi i'r swydd o Drefnydd Cyngor y Dysgwyr. Mudiad cymharol newydd ydyw, sy'n ceisio pontio'r gagendor rhwng y Cymry Cymraeg a'r rhai hynny sydd yn neu wedi dysgu'r iaith. Mudiad pwysig iawn gyda phosibiliadau pell gyrhaeddol.

Ar hyn o bryd mae yna ddeunaw cangen o CYD dros Gymru gyfan. Daw'r aelodau at ei gilydd yn rheolaidd gan ddilyn rhaglen o weithgareddau yn ystod tymor yr hydref tan yr haf. Teg fyddai cymharu'r mudiad i fudiad Merched y Wawr neu'r Urdd, ond ein bod a'r nod o gynorthwyo dysgwyr i ddod yn rhan o'r gymdeithas Gymraeg. Estynir croeso cynnes i bawb ymaelodi ac mae angen Cymry Cymraeg arnom. Beth amdani? Cymdeithasu a gweithio i hybu yr iaith Gymraeg ar yr un pryd!

Os oes yna gangen yn eich ardal chi, cysylltwch gyda'r Trefnydd Lleol. Os nag oes, wel beth am fynd ati i sefydlu un. Am ragor o wybodaeth neu fanylion, cysylltwch gyda mi ar unwaith.

CYD-weithiwn dros ein hiaith.

W. DYFRIG DAVIES.

---

O.N. Os carai unrhyw fudiad neu sefydliad wybod mwy am CYD, mi fyddwn yn ddigon parod i ddod i roi sgwrs am y gwaith.

LLYTHYR AGORED AT DDARLLENWYR Y DINESYDD

Annwyl Ddarllenwyr,

Wedi inni fod ar ofyn cynifer o bobl dros y misoedd diwethaf wrth baratoi 'Blas Byw', carem fanteisio ar y cyfle hwn i estyn diolch diffuant iawn i bawb a fu'n gysylltiedig a'r llyfr mewn unrhyw fodd.

Hoffem yn benodol dynnu eich sylw at gyfraniadau hael nifer o bobl ledled Cymru a fu'n ymwneud a'r broses o'i gyhoeddi a'i gael yn barod, mewn byr amser, ar gyfer Eisteddfod Abergwaun. Yn arbennig, diolch i Dafydd Meirion a'r staff yn Stiwdio Mei, Penygroes am fod yn fodlon i fwrw'r cwch i'r dwfn efo ni; roedd ei barodrwydd i ymgymryd a'r gwaith cysodi a chynllunio, a hynny am hanner y gost arferol, yn allweddol i fodolaeth y llyfr. Diolch o galon hefyd i Argraffdy Arfon, Penygroes, a fu'n gyfrifol am argraffu'r tudalennau mor lanwaith, ac i Wasg Ffrancon, Bethesda, am argraffu'r clawr - y ddwy wasg hefyd yn gwneud hynny am hanner y gost arferol.

Cynlluniwyd y clawr gan Bob Williams, o gwmni Magma, Biwmares, (cynllunydd logo Arian Byw hefyd, gyda llaw) a roddodd ei wasanaeth - a'r ffotograffau a dynnodd ei hun - yn rhad ac am ddim. Diolch o galon iddo yntau am greu clawr mor drawiadol, ac i Wasg Gomer am roi'r sglein arno - hefyd yn ddi-dâl. Daeth y cyfan ynghyd yng ngweithdy Tremewan, Abertawe, lle cafodd 'Blas Byw' ei rwymo - eto am bris gostyngol - llawer o ddiolch iddynt hwythau am waith mor chwim a destlus.

Cyfranwyd yr holl elw o werthiant y llyfr ar Faes yr Eisteddfod yn Abergwaun gan y llyfrwerthwyr a stondinau eraill i Gronfa Arian Byw, a bellach mae staff y Ganolfan Llyfrau Cymraeg, yn gofalu am ei ddosbarthu - yn ddi-dâl - i nifer o siopau llyfrau ledled Cymru, sydd eto wedi cytuno i gyfrannu'r rhan fwyaf - y cyfan mewn rhai achosion - o'u helw i Gronfa Arian Byw. Rydym yn ddiolchgar dros ben iddynt i gyd am bob cymwynas.

Gan i gwmniau ac unigolion ledled Cymru, drwy noddi tudalennau, gyfrannu'n hael tuag at gostau cynhyrchu'r llyfr, bydd y gyfran fwyaf bosibl o'r arian o'i werthiant yn mynd i gronfa Arian Byw.

Wrth reswm, heb y deunydd crai ni fyddai 'Blas Byw' yn bod, felly estynnwn ddiolchiadau allweddol i'r cogyddion a'r arlunwyr am gyfraniadau mor flasus a deniadol!

Y cyfan sydd ei angen felly yw i chwi ei brynu. Efallai'n wir fod Arian Byw yn swyddogol yn dirwyn i ben - a phwy all beidio ag edmygu a diolch i Osian Wyn Jones am ei egni a'i weledigaeth yn ei sefydlu - ond mae'r angen yn parhau. Cydweithiodd llawer o bobl, yn barod iawn, i wireddu'r syniad o gyhoeddi'r llyfr - sydd, yn fynegiant o brotest. Hoffem feddwl fod 'Blas Byw' yn fwy na chyfraniad ariannol i'r gronfa - ond yn hytrach, y bydd ei weld yn y gegin o ddydd i ddydd yn ein hatgoffa o'n braint o gael byw mewn llawnder ac heb angen, a'n dyletswydd parhaol tuag at eraill sy'n llai ffodus na ni.

Yn ddiffuant,

MARED JONES
SIAN GRUFFUDD

---

Annwyl Olygydd,

Braf oedd deall fod ymdrechion aelodau o Gymdeithas yr Iaith ac eraill wedi peri fod y Swyddfa Bost o'r diwedd wedi gweld yn dda i ddarparu cownter yng Nghaerdydd lle y gellid gwneud busnes trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y Swyddfa ger yr Ais, sydd yn gyfleus iawn yng nghanol y dref, y byddaf i bob amser yn galw, ond gan fod y cownter Cymraeg mewn man arall rhaid oedd chwilio amdano a gwneud defnydd ohono mor aml a phosib.

Rhuthro i ben pella'r dre' i Swyddfa Bost Churchill Way. (Doedd hwnnw ddim yn yr un man bellach - nodyn ar y drws ei fod wedi symud).

Croesi'r heol a cherdded eto'n bellach oddi wrth y siopau a'r bysiau a'r parciau moduron a chael hyd iddo mewn llecyn tawel diarffordd ynghanol adeiladau nad oeddwn yn eu nabod; swyddfeydd mae'n siwr.

Llwyddiant! - roedd yma hysbysiad ar un cownter 'Siaredir Cymraeg a Saesneg yma' ('Welsh and English spoken here'), ond neb yn agos i'r fan honno.

Ciwio i gael fy nhro i ofyn i'r Clerc 'Ble mae'r cownter Cymraeg os gwelwch yn dda?'. Hwnnw'n ateb yn foesgar 'It's over there, but there's no one there now, he's gone to lunch'.

Gwir roedd yn 1.30 o'r gloch, ond wrth gario fy mheciau ar hyd Heol y Frenhines i ddal fy mws ger y Castell, daeth i mi'r un teimlad ag a gefais lawer tro wrth aros mewn siop am hydoedd 'While we find someone who can check the Welsh on your cheque'.

Rwy'n deall fod y Swyddfa Bost yn gwneud hwn yn arbrawf i weld faint o ddefnydd a wneir o'r cownter hwn. Dyna'u maen prawf hwy o'r galw am y Gymraeg yng Nghaerdydd. A oes unrhyw arwyddocad i'r ffaith mai yn y Swyddfa llai cyfleus mae'r ddarpariaeth hon ac hefyd mai dim ond ar adegau o'r dydd cyfleus iddynt hwy y mae'r ddarpariaeth ar gael?

Yr eiddoch yn gywir,

HEULWEN THOMAS,
Llandaf.

GWASANAETH TEIPIO - Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg. Teipiadur electronig. Traethodau, sgriptiau ffilm/teledu. Ffoniwch Caerdydd 463923

# Colofn Shân Emlyn



Be sy' gen i i'w ddweud y mis yma? 'Chydig iawn fydd o ddiddordeb i chi mae'n siwr. Rwyf yn eistedd wrth fwrdd y gegin yn llunio colofn Hydref a hynny drannoeth pwyllgor brys i sicrhau ymddangosiad rhifyn Medi. Pam 'Pwyllgor Brys' medda chi? Wel, y mae teipydd Y Dinesydd dros flwyddyn a mwy, ar fin bod yn Dad ac oherwydd yn methu ymgymeryd a'r dasg. I ble y trown? Trafodwyd peidio a dod a rhifyn Medi allan, a'i gyfuno yn rifyn dwbwl yn yr Hydref. Diolch i rai o staff S4C am sefyll yn y bwlch, a gofalu bod rhifyn Medi, er yn hwyr, yn ymddangos.

Er bod Y Dinesydd yn gur pen yn amal, a chaf fy hun yn dweud wrthyf f'hun "Mi fyddai bywyd lawer yn haws heb Y Dinesydd". Ond, rwyf yn meddwl y byd ohono, ac yn benderfynol ei fod am oroesi. Er hynny, pam bod y gweithwyr mor brin? Onid ydy Caerdydd yn llawn o Gymry Cymraeg dawnus, sy'n gweithio yn y Cyfryngau - a llawer ohonynt yn y byd newyddiadurol? Lle rydach chi nad ydach chi ddim yn cefnogi papur bro cynta' Cymru? Petae pob un sy'n gweithio yn y Cyfryngau yn anfon pwt misol - mi fyddai gofod y papur yn llawn. Lle rydach chi?

Lle bydda i cyn bo hir os byw ac iach? Dim gwobr i neb am ddyfalu - mae'r ateb mor amlwg! Ydw, rydw i ar fin mynd "draw draw tu hwnt i'r moroedd" i dreulio chwe wythnos yn Y Wladfa. Daeth galwad ffôn ddoe i'm gwahodd i feirniadu yn Eisteddfod fawr Trelew. Rwyf wedi cysylltu â Dic Jones i ofyn am gywydd o gyfarchiad i'r Eisteddfod - addas iawn gan iddo ennill Cadair Eisteddfod Trelew rai blynyddoedd yn ôl.

Wel rwan, dyma rannu rhai o fy meddyliau efo chi. Haerllug ynte, fy mod yn meddwl bod fy meddyliau i o ddiddordeb i chi! Ydw i'n hunanol yn gadael Coed y Pry, Y Dinesydd a phopeth arall i foddhau'r ysfa yma i ymweld â chyfeillion oedranus yn y 'Tir Pell'? Ydw, mae'n siwr. Ond a bod yn ganol oed a'r plant i bob pwrpas wedi hedfan o'r nyth, rwyf yn ymwybodol iawn bod amser ar gerdded, a phwy wŷr hyd ein heinioes? Onid yw hi'n rheidrwydd i ymdrechu byw hyd yr eithaf? Rwyf yn ddigon hunan bwysig i dybio bod gen i gyfraniad i fywyd hen, hen bobol yn Y Wladfa - petae ond i ymweld â hwy a sgwrsio efo nhw. Prysuraf i ychwanegu y caf i fwy ganddynt hwy i fwydo'r enaid nag y gallaf ei fynegi mewn geiriau.

Peth sobor ydy cydwybod! Pam, oherwydd fy nghefndir Calfinaidd, bod boddhau dyheadau personol yn esgor ar euog-rwydd mawr? I liniaru hynny, rwyf wedi bod wrthi fel lladd nadredd ym morol am gysur Coed y Pry o hyn hyd y Nadolig. Eisoes, ar Fedi'r 4ydd, mae pob anrheg Nadolig wedi ei bacio, cas gobenydd y tri arall o Goed y Pry yn llawn ac yn barod i'w gosod o dan y goeden Nadolig. Yn y pythefnos nesa' mae tair tasg i'w cyflawni - tarteni 'fala i'r rhewgell, mins peis dirifedi ar gyfer ein hangenion ni yma - a Pharti Dolig Y Dinesydd, a chyfeirio cardiau Nadolig. Tra'n ymwybodol o dreiglo y blynyddoedd, rwyf wedi aralleirio'r cyfarchiad ar y cardiau - yn lle "Owen, Shan, Elin a Mari", sgrifennaf "Oddi wrth bawb yng Nghoed y Pry". Pam? Wel, rhag ofn rhyw ddydd y byddai wedi 'sgrifennu'r cardiau, ac erbyn i bawb eu derbyn y byddaf yn ôl ymadrodd Pen Llyn "o dan y dywarchen"!

Os byw ac iach, erbyn y dychwelaf, bydd rhifyn Tachwedd o'r Dinesydd allan. Gobeithiaf anfon cyfraniad i'r rhifyn hwnnw o'r Wladfa - a chymryd bod system bost Ariannin yn llwyddo i anfon y cyfraniad mewn pryd!


celtic asset management ltd.

RHEOLWYR BUDDSOSDIADAU AC ASEDAU PERSONOL
ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI

PORTFFOLIADAU BUDDSODDI DAN REOLAETH
NAILL AI CYFEIRIEDIG NEU GORDDEWISOL

AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER Â:
DAFYDD HAMPSON-JONES
CYFARWYDDWR

78 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF4 3LX
Ffôn: 394021

Delwyr trwyddedig mewn gwarannau.


# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

**AIRES:** Bydd hwn yn fis emosiynol braidd ichi, wynebwch y ffaith fod rhaid cefnu ar berthynas na fu'n llwyddiant hyd yn hyn. Ond daw ffrindiau i'r adwy gyda chyngor gwerth chwil a chymorth ariannol.

**TAURUS:** Os bu rhai yn eich twyllo yn y gorffennol gadewch iddynt wybod eich bod yn ymwybodol o hynny. Fe welwch newidiadau mawr (a buddiol) yn y gwaith yn sgil y lleuad newydd ar y 17eg.

**GEMINI:** Byddwch yn teimlo braidd yn gymysglyd y mis hwn ac yn ymddwyn yn anwadal, ond tua canol y mis daw'r ser i'ch helpu i wneud penderfyniad pwysig.

**CANCER:** Fe ddaeth pennod pwysig i ben yn eich bywyd, er fod rhai problemau yn aros i'w datrys. Byddwch yn barod i wynebu ambell i broblem yn y gwaith a gyda'r teulu.

**LEO:** Arnoch chi fydd y cyfrifoldeb i gadw'r ddysgl yn wastad yn y gwaith. Cymrwch y set gefn am y tro. Bydd yn gyfnod anodd, ond fe ddaw a'i wobrau maes o law.

**VIRGO:** Mae hi'n bryd i chi edrych o ddifri ar eich sefyllfa ariannol. Nawr yw'r amser i ail-gydio mewn heb broject y buoch yn ei anwybyddu dros dro, mi fydd yn gweithio nawr, er y daw rhai man broblemau yn ei sgil.

**LIBRA:** Thal hi ddim o osgoi problemau emosiynol mwyach. Ni fedrwch ddianc bellach rhag gwneud penderfyniad pwysig ynglyn a'ch cymar. Daw newyddion am ddyrchafiad yn y gwaith.

**SCROPIO:** Rhaid i chi wynebu eich problemau eich hunan, wnaiff eraill mo'u datrys drosoch chi. Dim ond chi all newid undonnedd eich bywyd, ac er gwaetha'r cythrwfl byddwch yn llawer hapusach o'i mentro hi.

**SAGITTARIUS:** Efallai bydd rhywrai yn eich siomi y mis hwn, serch hynny mae hwn yn gyfnod da i gynllunio tuag at y dyfodol. Dewch i dermau a'ch problemau emosiynol cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

**CAPRICORN:** Bydd y ser yn gweithio drosoch chi yn y gwaith y mis hwn. Daw cyfle di-rifedi i'ch rhan, ond mae hi'n bwysig eich bod chi'n manteisio arnyn nhw, neu mi fydd yn edifar gennych.

**AQUARIUS:** Cyfnod fydd hwn i fyfyrio yng nghylch gwirioneddau mawr bywyd - ni fyddwch yn teimlo ryw lawer fel cymdeithasu. Os am newid swydd, gwnewch nawr ar bob cyfri.

**PISCES:** Nid yw pawb yn eich erbyn er eich bod yn tybio hynny. Byddwch ddymunol wrth bawb, ond os oes ar rywun arian i chi mynnwch ei fod yn talu ei ddyled.



# Y Fro Gymraeg a'r Mari 'Na

"Mari, 'dan ni'n brin iawn o stwff i'r Dinesydd mis nesaf, wnei di 'sgwennu pwt i ni. Rhwbath lici di. Plis".

Fedrwn i ddim gwrthod y llais ymbilgar y pen arall i'r ffôn. "Iawn Mam, feddyliai am rwbath". A dyma fi yn eistedd yn fy nghartre newydd yn Y Felinheli, yn crafu pen a chnoi fy mhensal. Rhoddais gip brysiog drwy 'Y Goriad' (papur bro Y Felinheli a'r Cylch) am ysbrydoliaeth. Doedd dim llawer ynddo - dim ond hysbysebion a newyddion am lwyddiannau disgyblion ysgol, dymuniadau da i gyplau priodasol a rhes ar ôl rhes o enwau cleifion Ysbyty Gwynedd a'r "ymadawedig". Edrychais ar "Eco 'r Wyddfa", papur bro tipyn mwy swmpus ac ynddo hanesion difyr am bobol cyfarwydd - John Albert Evans a Nant Gwytheyrn, a chyfeiriad at Catrin Beard fel un o gyd-gyflwynwyr rhaglen gylchgrawn newydd S4C. Dechre hiraethu am yr hen Gaerdydd - fy mro enedigol. Bro? Ie, pam lai? Bro.

Troi'r ddalen, ac och, ing a gwae - dyfyniad o lythyr gan 'Fardd Y Wladfa' Irma Hughes de Jones. Patagonia - Patagonia - "ni allaf ddianc rhag hon!"

Sylwi ar dri pheth diddorol ynglyn â'r ddau bapur bro - pris y ddau yn ugain ceiniog a chais gan y ddau bapur am wirfoddolwyr i blygu'r rhifyn misol nesaf. Hefyd tudalen yr un gan bob ardal yn adrodd eu hanesion. Meddwl am Y Dinesydd - rhad ac am ddim - yr un criw bach gweithgar yn trefnu, dosbarthu a chyfrannu at bob rhifyn o un pen y flwyddyn i'r llall a'r gwaith yn amal yn mynd yn fwrn. Wedi dweud hynny mae tipyn gwell graen ar bapur bro Caerdydd na'r un o'r ddau o'm blaen rwan.

Na, nid yw pethau cweit mor hynci dovi yn Y Fro Gymraeg (lle bynnag mae honno) ag y tybir. Ydy, mae'n braf cael siarad Cymraeg a'r cymdogion, y post feistr, y llaethwr, y siopwr, y dyn darllen mityr, y tafarnwr ac yn y blaen a hynny'n gwbl naturiol a diymdrech. Ond fe synnais pan sylwais ar fy nghymydog yn arwyddo siec am ei fil trydan yn y Post yn Saesneg; cymydog arall yn dweud ar nodyn ar stepan drws "No milk today please", a'r tafarnwr o Gymro yn gweiddi adeg Stop Tap i lond bar o Gymry Cymraeg, "Time's up ladies and gentlemen. Let's have your glasses"! O, mae'r iaith Gymraeg yn iawn ar gyfer sgwrs dros wal yr ardd, ond nid ar gyfer materion ymarferol a phwysig bob dydd.

Bum mewn cyfarfod neithiwr i ail sefydlu Cangen y Blaid yn Y Felinheli. Roedd rhyw ugain yno a hynny'n cynnwys y Gadeiryddes a Mr. Dafydd Wigley. Darllenais amcanion y Blaid ar y tocyn aelodaeth a gweld yn eu plith "Diogelu a hyrwyddo diwylliant, iaith a thraddodiadau yr amgylchfyd a bywyd economaidd Cymru drwy bolisiau sosialaidd datganoledig".

Rhwng dirywiad yr iaith a'r Seisnigeiddio ar y pentref ers bodolaeth y marina felltigedig, heb son am ddiweithdra'r cylch o gofio trafferthion Ferrodo, y ffaith ddaearyddol frawychus bod Y Felinheli bang slap yn y canol rhwng Y Wylfa a Thrawsfynydd, ac i bennu'r cyfan bod y Fenai yn un o'r afonydd mwyaf ymbelydrol ym Mhrydain - methu dallt roeddwn i, o ddarllen amcanion y Blaid, bod cyn lleied o Gymry'r Felinheli wedi dod i festri Bethania neithiwr. Ond dyna ni, mae'n siwr bod pawb yn teimlo bod sedd Dafydd Wigley yn ddigon saff, heb orfod cyboli a chyfarfodydd bychain. Gobeithio eu bod nhw'n iawn ynte.

Does wybod pryd y dof adre am dro bach i'r fro nesaf. Ond os na welai chi cyn hir rwy'n siwr o'ch gweld yn Eisteddfod Porthmadog. Os am sgwrs dewch draw i'r tŷ haf. Pwy ŵyr nad y cyfeiriad fydd:

Sea View,
699 Morfa Bychan,
Y Fro Gymraeg.

Wnaiff hynna'r tro Mam?

O.N. Grwndi yn anfon ei chofion gorau at ei Nain!

---

CYMDEITHAS CYN-FYFYRWYR COLEG Y BRIFYSGOL, ABERYSTWYTH

Daeth trigain o aelodau'r Gymdeithas ynghyd ar Fedi'r 12fed i fwynhau pryd o fwyd canol-dydd yn Ffreutur yr Amgueddfa Werin, San Ffagan.

Cyflwynwyd y prif-westeion, Gareth a Mari Price, gan John Varden, Llywydd y Gymdeithas, a chafwyd anerchiad diffyr dros ben gan Gareth, Rheolwr BBC Cymru.

Ymhlith y cyn-fyfyrwyr roedd Ray Evans, ennillydd Medal Ryddiaeth Eisteddfod Abergwaun a'r Cylch ac i'w hanrhydeddu ac i ddiolch iddi am ei nofel 'Llyffant', cyflwynwyd iddi ddwy lwy de arian gyda logo'r Eisteddfod arnyn nhw (gwaith Rhiannon Evans) gan Heulwen Thomas.

Mae'r Gymdeithas yn cyfarfod ar fore Sadwrn cyntaf y mis yn Festri Capel Tabernacl o 10.30 ymlaen i gael paned o goffi. Croeso i unrhyw gyn-fyfyriwr/wraig a'u teuluoedd i ymuno â'r cwmni bryd hynny, ac wrth gwrs â'r Gymdeithas er mwyn mwynhau rhaglen 1986/87.

## Arddangosfeydd
### HYDREF

**Y Prif Adeilad, Parc Cathays**

**Crefftwyr Celf Cyfoes**

Arddangosir gwaith tri chrefftwr yn ystod y mis.
Y mae Peter Nicholas, a aned yng Ngwent, yn un o gerflunwyr amlycaf Cymru. Arddangosir hefyd emwaith gan Debby Moxon a cherameg gan David Winkley.

**Amgueddfa Diwydiant a Mor Cymru, Heol Bute**

Peirianneg Sifil yng Nghymru, tan 31 Rhagfyr.

Hanes technegau peirianneg sifil.

Rheilffordd y Taff Vale tan Ionawr 1987
Olrheinir yr hanes yn yr arddangosfa hon.

Rheilffordd Ffestiniog. Tan 31 Hydref
Yr hanes o'r dyddiau cynnar hyd heddiw.

Ernest Willows - Arloeswr Awyrlongau. 15 Hydref- 31 Ionawr, 1987
Hanes rhyfeddol yr arloeswr o Gaerdydd Y cyntaf i hedfan o Loegr i Ffrainc.

**Ty Turner, Heol Plymouth, Penarth**

Cymdeithas Celf De Cymru, 4 Hydref- 7 Rhagfyr
Dyma'r 91ain Arddangosfa o waith yr aelodau.

**Oriel, Heol Siarl**

Derbyniwch y peth dibwys hwn oddi wrth gyfaill - 18 Hydref-15 Tachwedd
Arddangosfa cwiltiau a sampleri o gasgliad enwog Amgueddfa Caerfyrddin.

**Neuadd Dewi Sant - Yr Ais**

Phil Parry, 29 Medi-25 Hydref
Peintiadau mawr, ynghyd a dyluniadau

**Theatr y Sherman, Ffordd Senghennydd**

Arddangosfa agored o waith ar werth. Artistiaid lleol yn cynnig eu cynnyrch am bris rhesymol. Os am arddangos, cysylltwch a'r Cyfarwyddwr.

**Ffotogallery, Heol Siarl**

Yr Anifail mewn Ffotograffiaeth 1843-1985
1 Hydref-8 Tachwedd

**Chapter, Heol y Farchnad, Treganna**

Prif Oriel
Tai Caerdydd 1850-1914 - 18 Hydref - 15 Tachwedd

Yr Ail Oriel
Twyllwyr - ffotograffiau, 18 Hydref- 15 Tachwedd

Y Concwrs
Gweithdai Opera Peking - ffotograffiau 18 Hydref - 15 Tachwedd.

HYSBYSEBWCH YN
Y DINESYDD

# Barn Disgyblion Glantaf Isa' am eu hysgol

Fe gychwynais i'r ysgol gyda fy ngwisg ysgol smart, glan. Roedd y bws ar amser diolch byth, ac fe eisteddais ar bwys fy ffrind. Roeddwn yn awyddus i ddechrau gwaith newydd a gweld yr athrawon. Yn yr ysgol roeddwn yn gorfod mynd i'r neuadd. Yno fe ffeindiais mai 1D base fy nosbarth a bod fy ffrindiau Vicky ac Angharad yn yr un dosbarth. Roeddwn i yn ofnus ac yn eiddgar.

Gwenan Ruddock,
1D

Pan ddes i i'r ysgol ar y bore cyntaf roedd fy mol fel peiriant golchi; rown ni'n ofnus iawn ac ar ôl hanner awr rown ni ar goll.

Ond 'nawr rydw i'n mwynhau fy hunan ac yn edrych ymlaen bob nos at drannoeth. Mae'r athrawon yn garedig iawn ac yn gwneud yn siwr ein bod ni'n hapus.

Elin Rees,
1D

Enw'r ysgol yma yw Ysgol Gymraeg Glantaf. Rydw i wrth fy modd yn yr ysgol hon. Fy hoff bynciau yw Cymraeg, Saesneg, Cerdd a Drama. Rydw i yn hoffi'r wisg ysgol a rydw i yn gwneud ffrindiau newydd. Rydw i yn hoffi fy athrawes dosbarth sef Mrs. Gwen Jones. Rydw i yn cael gwersi ffliwt yma a rydwi hefyd yn cael Ffrangeg a Madame Glaze sydd yn fy nysgu i.

Siwan Bown Davies,
1D

Mi ydw i wedi bod yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf am bythefnos. Dydw i ddim wedi dysgu enwau'r holl athrawon eto ond mi ydw i'n dechrau dod. Mae'r ysgol yn fawr, a mae cylch mawr ar y to fel platfform hofrennydd lanio. Mae'r adeilad bron yn felyn i gyd ond am y ffenestri ac yn y cefn, coch yw'r cefn. Mae cae anferth i chwarae arno yma. Ond y mae un peth rydwi'n casau yng Nglantaf Isaf sef gorfod mynd lan yr holl risiau i fynd i wersi gwahanol. Ond y peth gorau yw amser cinio, sglodion bob dydd!

Dafydd Wiliam
1D

Mae Ysgol Glantaf Isaf yn wahanol iawn i'r un Uchaf. Yn gyntaf mae'r adeilad yn gwbwl wahanol. Mae yma bedwar llawr a does dim coridorau ar lawr dau, tri a phedwar. Mae hyn yn achosi tipyn o broblem. Dychmygwch bod gennych wers ar y pedwerydd llawr ar y chwith ac mae'r wers nesaf ar y pedwerydd llawr ar y dde. Fe fydd yn rhaid i chi fynd yr holl ffordd i lawr y grisiau ar y chwith a'r holl ffordd i fyny ar y dde. Ond eto mae'n eich cadw yn weddol heini.

Tu allan mae 'Ysgubor Chwarae' ond mae'n drueni ei bod mewn cyflwr gwael. Er hynny mae iard weddol fawr yma a chae anferth i chwarae ac mae digon o le i bawb. Rwy'n hoff iawn o'r syniad o gael dwy wers ac egwyl, dwy wers a chinio, dwy wers ac egwyl a dwy wers a diwedd ysgol. Rwy'n teimlo'n fwy hapus yn yr ysgol yma na'r un Uchaf.

Ioan Gruffudd
2F



Ysgol Waterhall, yn Y Tyllgoed, sef safle Glantaf ,Isa'.

Fy niwrnod cyntaf yng Nglantaf Isaf

Fe godais i, am hanner awr wedi chwech, ar ol noson ddigwisg, i wisgo. Roedd y ty yn dawel. Fe es i lawr i gael fy mrecwast, sef Weetabix. Ar ol i mi fwyta, fe gliriais i lan, glanhau fy nannedd, a chribo fy ngwallt fe es i lawr i'r orsaf bws.

Roedd y bws ddeng munud yn hwyr ond pan gyrhaeddodd ef ni chymrodd yn hir i mi gael set. Cefais i un yn yr ail rhes ar ol i'r lleill fy nghuro i i'r sedd blaen. Roedd y bws yn mynd i Lantaf Isaf yn gyntaf, wedyn Ysgol Esgob Llandaf ac yn olaf i Lantaf Uchaf.

Pan welais i'r ysgol o'r tu fas meddylais ei bod yn ysgol fodern iawn. Roeddwn i'n anghywir i feddwl hynny achos roedd e'n waeth y tu fewn na COLDITZ! Roedd y dosbarthiadau yn hanner brwnt ac roedd rhai mannau ar y wal ac angen eu trwsio. Hefyd roedd y ffreutur yn un fach ond nid oedd yn fach ar y dewis o fwyd oedd ar gael.

Pan welais i'r iard a'r cae roedd fy ngheg i yn agored am dipyn wrth weld cymaint o faint oedd y cae. Roedd 'na athro ar ddyletswydd i'n cadw ni draw rhag rhyw adeilad sy'n beryglus a dywedodd yr athro hwnnw ei fod ar fin syrthio i lawr gan ei fod wedi rhwdo gymaint.

Cawsom ni fapiau i wybod lle roedd pob peth ond nid oedd ei heisiau nhw ar ol ychydig o amser achos roedd na blaciau ar bob llawr yn dweud pa ddosbarthiadau oedd ar pa lawr, a pheth bynnag, roedd y disgyblion yn cofio eisioes lle roedd pob peth cyn i amser cinio ddod!

Ar ol diwrnod o alw mas ein henwau a mynd i nol pethau ar gyfer rhai ystafelloedd, fe arhoson ni i'r bws. Am bum munud wedi pedwar mae'n cyrraedd i'n casglu ni ar ol bod yng Nglantaf Uchaf ac Esgob Llandaf. Mae 'na ras i ddarganfod set wag ond bob amser mae 'na un neu ddau berson yn gorfod sefyll ar eu traed hyd y stop nesaf sef Sant Nicholas. Wedyn mae 'na rhai seddau gwag ar gael. Yna mae'n rhaid i mi gerdded adref i wneud y gwaith cartref ar gyfer yfory yng Nglantaf Isaf.

Geraint Treharne 2D

# Meithrin

Y DYFODOL YN DDISGLAIR
BRWDFRYDEDD NAWR MEWN PEDAIR CANOLFAN

Erbyn mis Medi nesaf fe fydd 50 o athrawon wedi'u hyfforddi i helpu'r Cylchoedd Meithrin ac i weithio mewn Cylchoedd Mam a'i Phlentyn.

Bu'r Pwyllgor Sir yn gofidio ers amser mawr mai ond athrawon y Babanod neu ferched wedi'u hyfforddi ag NNEB a allai weithio yn ein Cylchoedd ni. Yn wyneb y gofid hwn a'r angen mawr am athrawon mae pedwar Cwrs Dysgu Cymraeg ac Hyfforddi Athrawon wedi'u sefydlu mewn pedair canolfan - yn Y Barri, yn Y Bontfaen ac yng Nghaerdydd.

Mae aelodau'r Mudiad Meithrin wedi dymuno ymuno a chyrsiau'r Efrydiau Allanol ar gyfer y cyrsiau iaith ac maen nhw'n cyflawni gwersi Wlpan Mrs Eleri Rogers a'i Chwrs 'Helo 'Na'. Yng Nghaerdydd mae'r Efrydiau Allanol wedi'n helpu ni i sefydlu creche yn eu hadeilad nhw yn Park Place. Mae trefniadau'r creche yng Nghaerdydd Y Bontfaen a'r Barri wedi hwyluso llenwi'r cyrsiau a phobl addas, brwd sy am gynnig addysg Gymraeg i'w plant ac sydd am weithio yn ein Cylchoedd. Mae tua phymtheg ym mhob dosbarth.

Mae'r Cyrsiau Hyfforddi athrawon meithrin dan arweiniad Mr. Elwyn Richards a Mrs. Edith Roberts. Fe fydd y ddau hyn yn sicrhau bod anghenion hyfforddi y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu gwireddu ond yn bwysicach na dim fe fyddant yn rhoi hyfforddiant penigamp i'r athrawon i gyflwyno iaith tra'n cyflwyno medrau sylfaenol byw a chwarae bob dydd i'n plant.

Mae'r cynlluniau hyn yn gostus iawn fel y gellwch dybio mae'n siwr. Mae'r Cylchoedd Meithrin eu hunain wedi cyfrannu'n barod. Mae cyfraniad ardderchog eisoes wedi'i gyfrannu trwy Ymddiriedolaeth Jane Hodge. Diolch yn fawr iddyn nhw am gyfrannu mor hael.

Mae'n siwr fod pawb a fu yn Stadiwm y Maendy nos Wener, 12fed o Fedi, wedi bod yn falch iawn o ferched a bechgyn ein hysgolion Cymraeg a'r unigolion o oedolion a redodd dros ein Cylchoedd Meithrin. Roedd eu brwdfrydedd a'u boddhad yn bleser i'w gweld. Fyddan nhw fyth yn anghofio iddyn nhw redeg er budd Mudiad y Cylchoedd Meithrin a ryn ni yn ddiolchgar i bob copa gwalltog ohonyn nhw - ryn ni'n ddiolchgar iddyn nhw am gymryd rhan ac yn falch iawn o'u cyfraniad. Ryn ni'n gobeithio codi rhyw £1,000 trwy'r ymdrech fawr hon a diolch i Mr. Gwilym Roberts a Mr. Tomos Davies am roi hysgwydd dan y baich o drefnu'r Rhedeg Nawdd ardderchog yma.

Os bydd unrhyw Ddigwyddiad arall yn Ne'r Sir fe fyddem yn ddiolchgar dros ben ichi am eich cefnogaeth. Mae'r Cyrsiau eisoes wedi dechrau a rhaid inni fel Pwyllgor Sir gyflawni ein haddewidion o gefnogi'n ariannol. Mae angen eich help chi arnom ni hefyd.

Os oes diddordeb gyda chi i arwain Cylch neu i gynorthwyo mewn unrhyw fodd, cysylltwch a Mrs. Elaine Pye yn y Ddinas Mrs. Margaret Knight yn Y Fro.

Cofiwch archebu 'Deryn' - Cylchgrawn yr Urdd yn eich siop leol. Rhaid cynyddu cylchrediad 'Deryn' a 'Cymru'r Plant' neu fe fyddan nhw'n mynd ar goll i'n plant am byth. Mae 'Deryn' yn addas iawn i'n plant meithrin.

Mynnwch boster hyfryd M.Y.M. hefyd. Lluniau hwiangerddi mor ddeniadol arnynt. £1.25 o Swyddfa'r Mudiad yn Park Grove.

Cofiwch hefyd fod y Mudiad yn trefnu Cynhadledd Arbennig ar 'Plant ag Anghenion Arbennig' ym Mhlas Gregynog, dydd Sadwrn, 15fed o Dachwedd. Am fanylion pellach, cysyllter a Swyddfa'r Mudiad.

Ethni Jones.

## CYMDEITHAS WYDDONOL CYLCH CAERDYDD

Bydd y Gymdeithas Wyddonol yn ailddechrau cyfarfod wedi seibiant dros yr haf ar nos Lun, Hydref 13eg am 8 o'r gloch yng Nghlwb Ifor Bach. Mae'n siwr y bydd y cyfarfod agoriadol hwn o ddiddordeb i lawer, gan fod pwnc amserol iawn dan sylw, ac un y bu cryn drafod arno yn ddiweddar. 'CHERNOBYL - TROBWYNT GWAREIDDIAD?' yw teitl y ddarlith, a'r siaradwr fydd Mr. Glynn Owen o Adran Ffiseg Meddygol Ysbyty Athrofaol Cymru. Ef hefyd, gyda llaw, yw Llywydd Anrhydeddus y Gymdeithas leol am eleni.

Nid oes angen cymhwyster gwyddonol o fath yn y byd er mwyn ymaelodi a'r Gymdeithas a mynychu'r cyfarfodydd. Ymhlith y ffyddloniaid, y mae nifer o leygwyr, ac wrth gwrs, y mae 'Gwyddoniaeth' yn rhychwantu meysydd eang iawn. Gofynnir felly i'r siaradwyr baratoi ar gyfer cynulleidfa amrywiol iawn ei chefndir sy'n sicrhau fod pawb yn cael budd o'r noson. Estynnir croeso cynnes iawn, felly, i unrhyw rai a'ch annog i ddod i'r cyfarfod cyntaf. Mae'n gyfle ddelfrydol i ehangu gwybodaeth a chyfrannu i drafodaeth ar bob math o bynciau gwyddonol - hynny i gyd yn Gymraeg ac mewn awyrgylch hwyliog ac anffurfiol.

Cofiwch y manylion -

Nos Lun, Hydref 13eg am 8 o'r gloch yng Nghlwb Ifor Bach : Chernobyl - Trobwynt Gwareiddiad?

## Merched y Wawr

- Cangen Caerdydd

Ar yr ail nos Lun o bob mis am 7.30 y byddwn yn cwrdd, a festri Capel Minny Street yw ein man cyfarfod.

Eleni, Mrs. Rebecca Powell yw ein Llywydd ac rydym eisoes wedi cael un noson gyda'n gilydd, sef nos Lun, Medi'r 8fed.

Roeddem wedi disgwyl y Prifardd Robat Powell (Bardd y Gadair, Eisteddfod y Rhyl, 1985) i'n hannerch ond yn anffodus, ar y funud olaf, cafodd ef y newydd trist sef marwolaeth aelod agos o'r teulu, a methodd a chadw'r cyhoeddiad. Yn naturiol roedd siom oherwydd hyn ond fe'n llonwyd ar unwaith pan gyhoeddodd ein Llywydd ei bod wedi dod o hyd i 'Powell arall' i lenwi y bwlch, ac fe wnaeth y Parch Eifion Powell hyn yn rhagorol. Diolch yn fawr iddo am fod mor barod i'n diddanu ar fyr rybudd. Cawsom noson arbennig o ddifyr yn gwrando arno'n traethu ar 'Hen Arferion Cymreig' ac ar ol y ddarlith roedd siawns i ail gymdeithasu a'n gilydd ar ol gwyliau'r haf dros baned o de neu goffi a lluniaeth ysgafn.

Mae croeso i ferched o bob oedran ymuno â ni. Byddwn yn falch iawn o weld aelodau newydd yn dod ac hefyd beth am gael cwmni rhai o'r cyn-aelodau sydd wedi llaesu dwylo y blynyddoedd d'wetha 'ma. Rydym yn gweld eich eisiau. Mae nifer o ddysgwyr wedi troi fyny yn ein mysg ac rydym yn arbennig o falch o'u croesawu.

## CYLCH CINIO MERCHED CAERDYDD

CROESO - oes, mae yna groeso calon i unrhyw un ohonoch chi ferched Cymraeg Caerdydd, i ddod atom i'r Cylch Cinio. Does yna ddim tal aelodaeth na gorfodaeth o gwbl i fynychu yn rheolaidd.

Os oes blys arnoch i ddod, dewch wir, ac fe gewch bryd da o fwyd, anerchiad diddorol a sgwrs gyfeillgar gyda hon a'r llall.


Cawsom gychwyn ardderchog i'n Cylch Cinio ar Fedi'r 11eg pan ddaeth Elin Angharad Edwards atom i siarad am ei swydd fel aelod o Gerddorfa Symffoni Gymreig y BBC. Hyfryd oedd gwrando ar Elin yn rhoi cefndir ei swydd mewn modd mor naturiol a ffraeth.

Mae'r Cinio nesaf nos Iau, Tachwedd 13eg am 7.30 o'r gloch yn y Thatcher's Llanishen. Ar y noson honno anrhydeddwn Ray Evans ar ei anrhydedd o ennill Y Fedal Ryddiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Abergwaun.

Cysylltwch a :

| | |
|---|---|
| Myfanwy Jarman, | Caerdydd 732877 |
| Julia Lloyd, | Caerdydd 751831 |
| Bethan Lewis, | Caerdydd 754723 |


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367

## TORTH O FARA

Gyda'r haul yn disgleirio'n braf ar ddiwrnod yn wythnos olaf mis Medi, anodd yw rhoi fy meddwl ar y dyddiau byr ac oer sydd o'n blaen dros fisoedd y gaeaf. Byddaf yn ddiolchgar y dyddiau hynny i gael dod adref o'm waith i dŷ cynnes a chael gwisgo'm dillad yn y bore heb grynu o achos oerni ystafell wely. Tybed faint ohonom sy'n cymryd digon o sylw o gostau ynni sy'n cynhesu ein cartrefi a'n llefydd gwaith, nid yn unig o ran pris ynni ond hefyd o ran dyfodol ein hadnoddau ynni?


Mae eleni wedi cael ei phenodi'n Flwyddyn Effeithlonrwydd Ynni. Amcangyfrif bod Prydain yn colli tua £7 biliwn y flwyddyn mewn ynni sy'n cael ei wastraffu - dyma un rhan o bump o'r cyfanswm o'r ynni a ddefnyddir yn y wlad. I gael pobl i sylweddoli'r gwastraff ac hefyd i geisio'n cymell i wneud rhywbeth positif ynglyn â'r sefyllfa hon, crewyd y Swyddfa Effeithlonrwydd Ynni gan y Llywodraeth gyda'r amcan o dynnu sylw'r defnyddwyr i'r buddiannau o ddefnyddio ynni yn fwy effeithiol. Fel rhan o'r ymgyrch yn 1986 dyfeisiwyd rhaglen o wasanaethau a chynlluniau sy'n hyrwyddo mesurau i wella ein defnydd o ynni yn ein cartrefi ac mewn diwydiant. Ni ellir cael gwarant o lwyddiant cant y cant i ymgyrch o'r fath ond ers iddo gael ei lansio mae dros 140,000 o bobl wedi ymateb drwy anfon am becynnau gwybodaeth o'r Swyddfa.

Nid oes angen gwario swm mawr o arian ar y tŷ i warchod ynni trwy ddefnyddio mesurau effeithiol a syml fel ynysiad yn y to a stribedau ynysu o amgylch ffenestri a drysau. Eto mae'n amlwg fod pobl yn dal i fod yn anwybodol o'r rhan a chwareir gan ynni yn ein bywydau bob dydd, mewn gwaith ac yn y cartref fel y gellir ei weld ledled y wlad trwy ddiffyg ynysu syml mewn tai ac hefyd y gwastraff a'r anghymwyster a welir mewn ffatrioedd a swyddfeydd.

Dengys y diagram canlynol lle ddylai'r flaenoriaeth fod wrth gymryd mesurau i ynysu'r tŷ wrth weld y gwahaniaeth rhwng y maint o wres a gollid o'r tŷ ac ar ôl ynysu.

Mae Caerdydd wedi cael ei chyhoeddi 'Y Ddinas Gweithred Ynni' gyntaf ym Mhrydain. Gwelwyd hanes enghreifftiau yn y Wasg leol yn ddiweddar o rai o'r mesurau sy'n cael eu cymryd yng Nghaerdydd i geisio arbed £10 miliwn o'r £100 miliwn a werir ar ynni yn y ddinas bob blwyddyn. Enillwyd gwobr o Fwrdd Nwy Cymru gan Bwll Nofio'r Empire fel canlyniad o leihau bil ynni'r adeilad tua £30,000 y flwyddyn.

Gobeithir hefyd gwtogi tua 20% eleni yng ngwariant ar ynni yng Ngwesty'r Parc trwy wella rheolaeth ac hefyd trwy addysgu eu staff am y pwysigrwydd o ddefnyddio ynni yn fwy economaidd. Mae'r Theatr Newydd yn ceisio cynilo trwy wneud newidiadau eitha syml a rhad a fydd yn cwtogi'r defnydd o ynni i gynhesu a goleuo'r adeilad. Gobeithio y cawn weld rhagor o enghreifftiau tebyg fel canlyniad i'r ymgyrch.




Trwy Brydain mae dros 260 o brosectiau ynni yn cael eu gweithredu trwy Gyngor Cenedlaethol dros Drefniadaethau Gwirfoddol. Fel canlyniad mae tua 200,000 o gartrefi'n gynhesach. Mae gwaith y Cyngor, trwy eu gwasanaeth Gweithred Ynni Cymdogaeth, yn canolbwyntio ar roi cymorth ymarferol i nifer fawr o deuluoedd incwm isel, yr henoed a'r anabl.

Mae'r Bwrdd Nwy a'r Cyngor Trydan wedi gwneud cyfraniadau hefyd gyda chwmniau adeiladu tai. Un enghraifft yw'r Parc Ynni a gynlluniwyd yn Milton Keynes fel prosiect arddangos rhyngwladol. Mae'r adeiladau ar y parc i gyd wedi cael eu llunio yn arbennig i ddangos sut y gellir gwneud y gorau o'r adnoddau ynni. Mae'r adeiladau hyn yn cael eu asesu o'r cyfnod cynllunio ymlaen ac fe fydd monitor yn mynd ymlaen ac fe fydd monitor yn mynd ymlaen o'u effeithlonrwydd yn eu defnydd dyddiol. Defnyddir ynysu o dan y lloriau, yn y toau ac yn y waliau; mae sustemau gwresogi o effeithlonedd uchel - nwy neu drydan, unedau adennill ynni a chyfnewidwyr gwres. Cymerir mantais o ynni solar ac mae rhai adeiladwyr ar y parc yn cymeryd mesurau i allu defnyddio ynni o baneli solar ac o bwer y gwynt. Amcangyfrif fod tai sy'n cyrraedd safon uchel o gadwraeth ynni yn costio tua £2,000 yn fwy na thai cyffredin a adeiledir. Bydd y cynilo ariannol ar ynni o ganlyniad i hyn yn cymryd rhwng 5 a 10 mlynedd i'w ad-ennill. Efallai bydd hyn yn anfantais i'r rhai sydd ddim am aros mewn un tŷ am gyfnod hir ond ar y llaw arall fe ellir fod yn fanteisiol wrth werthu tŷ mewn cystadleuaeth a thai heb arweddau cynilo ynni mor effeithiol. Tybed faint o'n tai ni sy'n yr ail gategori? (Gellir cael cyngor a phecynnau gwybodaeth am ddim o'r Adran Ynni : cysylltwch â Les Hewett, Ystafell 1395, Adran Ynni, Thames House South, Millbank, Llundain SW1).

# PENARTH A DINAS POWIS

**********************************

Prysurdeb y paratoadau sy'n nodweddi bywyd Cymdeithasau Cymraeg y cylch ar hyn o bryd. Mawr yw'r gobaith yn Ninas Powis am weld llu o gyfeillion - yn aelodau hen a newydd - yn ymgynull yn Neuadd Sant Pedr am 7.30 ar Hydref 6 i'r Swper Croeso. Mae Cymry Penarth eisoes wedi cychwyn ar weithgareddau'r tymor drwy gynnal gwibdaith hyfryd i Gaerfyrddin - 'trip' tu hwnt o bleserus er gwaetha'r glaw! Bydd y Gymdeithas yn cynnal Seiat Holi nesaf - am 7.30 yn Ysgoldy Bethel ar y 1af o Hydref.

**********************************

Braf yw byd plantos yr ardal! Fe gychwynnodd y tymor ar nodyn ddymunol a llu o blant, yn Gymry Cymraeg ac yn ddysgwyr yn cychwyn neu'n mynd nol i'r Ysgol Gymraeg ac i'r Ysgolion Meithrin ym Mhenarth ac yn Ninas Powis, Rhai wrth gwrs yn mentro i'r "Ysgol Fawr" am y tro cyntaf ac eraill yn symud draw o borfeydd gwelltog Glantaf. I mi'n bersonol caf fwynhad arbennig wrth weld cenhedlaeth newydd o 'blant y plant' a ddysgais i - ers blynyddoedd bellach! - yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Hyfryd yw gweld llu o ddysgwyr yn llwyddo i'r fath raddau a hyfryd yw gweld balchder y rhieni wrth wrando ar eu plant yn siarad Cymraeg yn raenus a hyderus.

**********************************

Fel arfer mae Aelodau Capel Bethel yn brysur ac yn ail gydio yn yr awenau ar ol rhwy dipyn o ysbaid dros fis Awst. Gwahoddir aelodau a ffrindiau, ac yn wir holl garedigion yr achos, i Fore Coffi ar Hydref 4 yn Neuadd y Paget. Erbyn hyn mae stondin cacennau Winifred, Moyra a Janet yn denu lluoedd! Mae stondin gwaith llaw Elin ac Eirlys a Mrs. Davies a'u ffrindiau yn enwog dros Forgannwg Fawr, heb anghofio coffi blasus Iris, Jane a Jill a Helen. Rhaid imi beidio anghofio'r dynion - fyddan nhw yno'n cynorthwyo fel arfer - wrth y drws, gyda'r gemau ac yn estyn cymorth i'r Parch. a Mrs. Meurwyn Williams lle bo angen. Dewch yn llu i gwrdd ffrindiau ac i hybu ochr ariannol Capel Bethel.

**********************************

**Cymdeithas Gymraeg Dinas Powis - Tymor 1986-87.**

Pob cyfarfod i ddechrau am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Elgwys Sant Pedr (os na nodir yn wahanol).

**Nos Lun, Tachwedd 3:** "Fforwm" - dan ofal Mr. I. Hughes.
**Nos Lun, Rhagfyr 15:** Gwasanaeth Nadolog, Eglwys Sant Pedr.
**Nos Lun, Ionawr 5:** Sgitl a Bwffe, Clwb B.P., Sili.
**Nos Lun Chwefror 2:** Cwis - dan ofal Mr. P. Davies.
**Nos Lun, Mawrth 2:** Cinio Gwyl Ddewi, Clwb B.P., Sili.
**Nos Lun, Ebrill 6:** Noson yng nghwmni Aled Gwyn a Menna.
**Nos Lun, Mai 11:** Helfa Drysor.

Croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd. Os am fwy o fanylion cysyllter a: Mr. Edryd Lloyd, 705154 (Cadeirydd) Mrs. E. Hughes, 569062 (Ysgrifenyddes)

# LLYFRAU

Sgubo'r Storws, Dic Jones,
Gwasg Gomer, £2.25.

Mae Dic Jones wedi cyhoeddi cyfrolau o farddoniaeth yn hynod o reolaidd dros gyfnod o chwarter canrif. Ym 1960 y cyhoeddodd ei gyfrol gyntaf, ac yna ym 1969 a 1978, a dyma hon eleni, ei bedwaredd gyfrol, flwyddyn yn gynnar! A diolch byth ei bod hi'n gynnar hefyd, achos mae gwaith Dic Jones yn haeddiannol boblogaidd, ac ni fydd Sgubo'r Storws yn siom i'w gynulleidfa fawr. Ceir ynddi'r amrywiaeth mawr o bynciau a mesurau, o gerddi digrif a difrif sy'n nodweddu pob un o'i gyfrolau, ac mae'n siŵr gen i fod rhywbeth yma at ddant pawb. Mae Dic Jones yn enwog am ei ffraethineb, ac mae digon o enghreifftiau o hynny yma - pethau fel yr englyn hwn am y falwoden, sy'n defnyddio dyfais rethregol ailadrodd yn glyfar iawn, a gydag amseriad perffaith:

Bytodd o'r swêds dair biwti,-a bytodd
  Y betys a'r persli,
 Byta'r cêl, byta'r coli, -
 Tawn i'n Nantes, fe'i bytwn hi.

Mae'r cyfuniad Efa-afal yn hen drawiad os bu un erioed, ond mae Dic yn ei adfywio, gyda rheg addas iawn hefyd, yn ei englyn i'r garddwr diog:

Fe drôi ef dir ei ofal, - hyd yn oed
  Yn Eden, yn anial.
 Trwy'r dydd byddai'n treio dal
 Efa, i ddiawl â'r afal.

Mae'r gyfrol yn cynnwys yr englyn, 'Yn eisiau, gwraig', a gythruddodd y ffeministiaid. Nis dyfynnaf yma rhag eu cythruddo ymhellach, ond dylid cofio fod Dic Jones yn hen law ar y gwaith o wneud hwyl am ei ben ei hun. Dyna a wna yn ei gywyddau gofyn digrif, maes y mae wedi arbenigo ynddo ers ei gyfrol gyntaf. Ceir dau ohonynt yma, ac mae'n ddiddorol nodi fod pwyntiau difrifol y tu ôl i'r ysmaldod yn y ddau. Gofyn am ostyngiad yn nhreth y dwr y mae un, ac mae'r llall yn gofyn benthyg whilber gan gymydog (yr un yw'r cymydog bob tro yn y cerddi hyn), am fod ffermwyr yr oes hon yn dibynnu gormod ar beiriannau, a'i fod yn rhagweld y dydd pan fydd 'y pyllau olew'n pallu'. Mae'n ddiddorol gweld y newid yn ei agwedd at beiriannau ers ei awdl 'Cynhaeaf' ugain mlynedd yn ôl, lle y mae'n croesawu'u cymorth i'r ffermwr.

Mae llawer o gerddi'r gyfrol yn goleuo a chyfoethogi'i gilydd, gan gyfleu'r un peth o wahanol safbwyntiau. Er enghraifft, ochr yn ochr â'r pennill hir-a-thoddaid 'Cyfaill', sy'n sôn am gyfeillgarwch mewn termau cyffredinol, dylid darllen cerddi fel y cywydd yn cyfarch T. Llew Jones yn yr ysbyty, a'r cywydd coffa toreithiog a phersonol iawn i'r bardd Tydfor. Nid yw Dic Jones yn cyffredinoli heb sail gadarn yn ei brofiad ei hun.

Mae mwy o fyfyrdod dwys yn y gyfrol hon nag yn ei waith cynharach, ond yr un yw'r themâu a'r agweddau sylfaenol o hyd. Mae delwedd y cylch neu'r rhod yn ganolog yn ei holl waith, yn mynegi undod a pharhad, a hefyd olyniaeth gytbwys llawenydd a gwae. Mae'r haul yn symbol o obaith a pharhad sy'n digwydd drosodd a thro yn ei waith, fel yn yr englyn hwn sy'n cloi'r gyfres hynod o dyner yn dathlu priodas Rhian Medi:

Hen bridd ein geni ninnau- yn helaeth
  A'ch cynhalio chwithau,
 A'r un haul draw'n ei olau
 Eto a'ch dygo chwi'ch dau.

Mae galarnadu'n rhan bwysig o swyddogaeth y bardd gwlad, ac mae gan Dic Jones y ddawn o wneud i gerddi confensiynol ymddangos yn unigryw. Ond mae ei englynion marwnad i'w ferch Esyllt a fu farw'n faban yn mynd ymhell y tu hwnt i bob confensiwn. Yn cloi'r gyfres y mae'r pennill hir-a-thoddaid hwn, sy'n enghraifft ardderchog o ddwyster urddasol y cerddi ar y mesur hwnnw yn Sgubo'r Storws:

Nid yw yfory yn difa hiraeth,
Nac ymwroli'n nacau marwolaeth,
Fe ddeil pangfeydd ei alaeth
                tra bo co',
Ei dawn i wylo yw gwerth dynoliaeth.

Diau y bydd llawer o bobl yn cael drych i'w profiadau eu hunain yng ngherddi'r gyfrol hon. Credaf mai cyffredinolrwydd ei waith, rhagor ei ffraethineb a'i ddawn gynganeddol, sy'n gyfrifol am boblogrwydd Dic Jones. I ddyfynnu geiriau'r bardd ei hun yn un o'i deyrngedau, 'Nid ei ddoniau hael ond ei ddynoliaeth' yw gwir sail ei apêl.

D. R. Johnston

---

**Cerddi Hydref, R. Bryn Williams,
Cyhoeddiadau Barddas,
Pris: £2.00**

**Casgliad yw'r gyfrol hon gan Eunice Bryn Williams o gerddi ei diweddar ŵr a gyhoeddwyd mewn cylchgronau ym mhum mlynedd olaf ei fywyd.**

**Mae yna dristwch a dadrithiad yn cerdded drwy'r gyfrol - tristwch bardd dwy wlad, yn fregus ei iechyd ac yn wynebu henaint. Bu tinc o dristwch ym bywyd y bardd gydol ei oes, er yn gwmniwr difyr. Pan yn Y Wladfa byddai'n anniddig ac yn hiraethu am Gymru, a'r un hiraeth a'r anniddigrwydd yn ei bersonoliaeth yn sôn am Y Wladfa pan yma yng Nghymru. Y mae'r gerdd gyntaf yn y gyfrol sef 'Y Rhodd' yn dweud y cyfan.**

**Ceir amryw o gerddi ac englynion coffa, ac ambell gip ar ramant Y Paith yn y cerddi a luniodd i'r canwr Rene Griffiths. Y mae'n fardd sy'n canu'n rhwydd a'r naturioldeb a'r rhwyddineb hwnnw i'w weld yn glir yn y penillion y mae wedi eu hychwanegu at benillion gwerin traddodiadol. Y mae rhywbeth at ddant pawb yn y gyfrol hon. Mynnwch hi. Trist meddwl mai hon yw cyfrol olaf bardd 'Y Tir Pell'.**

---

# TWR TRAFOLI

Unwaith eto daeth yn bryd i'r Twr Trafoli ail-ddechrau cyfarfod wedi seibiant dros yr haf, ac y mae croeso arbennig i unrhyw un a diddordeb - waeth faint yw ei (h)oed - ymuno a ni (ac yn wahanol i gymdeithasau eraill 'dydyn ni ddim yn hawlio tal aelodaeth...!)

Bydd yr enw'n siwr braidd o achosi penbleth i'r rhai hynny sy'n newydd-ddyfodiaid i Gaerdydd. Cyfuniad o "trafod" a "moli" yw "trafoli"- ac er mwyn rhoi cyfle i bobl gael gwneud hyn mewn awyrgylch anffurfiol ac ymholgar y ffurfiwyd y Twr Trafoli.

Mae'n hawdd iawn i'r rhai ohonom a gafodd eu magu yn y traddodiad anghydffurfiol Cymreig (a'r tu allan iddo, o ran hynny) feddwl mai rhywbeth o fewn muriau capel neu eglwys, un diwrnod yr wythnos, yw crefydd. Rhywbeth i droi cefn arno cyn gynted ag y gadawn gartref. Wedi'r cwbl, mae'r iaith a ddefnyddir mor ddiarth - beth ydy ystyr y geiriau mawr 'ma mewn iaith-bob-dydd? Onid oes 'na ffyrdd mwy cyfoes, mwy amrywiol o addoli? Beth yw addoli, beth bynnag?

Bron na fedrid dweud fod "crefydd" yn hen air hyll yn y gymdeithas sydd ohoni, a "bod yn grefyddol" yn beth hen-ffasiwn. Rydym yn dueddol o fod yn swil braidd o siarad am "bethau crefyddol", fel petai'n arwydd o wendid, neu'n amherthnasol inni heddiw. Ond o ystyried hynny, onid ein syniadau ni am grefydd sy'n gul, wedi'n cyflyru gan ein cymdeithas? Ydan ni o ddifri'n gwybod beth yw ystyr y gair? Ai mynd i gapel ydi bod yn grefyddol? Eto, mae 'na dynfa sy'n dod a phobl at ei gilydd i addoli..

Y farn boblogaidd yw fod gwyddoniaeth wedi disodli crefydd yn yr oes dechnolegol, faterol hon. Ond a ydym ni'n defnyddio'n gwybodaeth er lles pobl eraill? Ydi'r byd yn lle gwell i fyw ynddo? Fyddwch chi'n teimlo fod 'na rywbeth ar goll weithiau? 'Dydi gwyddonwyr ddim yn anffaeledig - dangosodd Challenger a Chernobyl hynny inni - a 'dydi'r gwleidyddion ddim yn gwneud sioe ry dda o reoli'r byd 'ma chwaith - yn caniatau i filiynau o bobl newynu yng ngwledydd y trydydd byd, yn caniatau poenydio carcharorion sy'n anghytuno a'u safbwyntiau hwy, yn rhedeg ras arfau orffwyll sy'n bygwth holl ddyfodol bywyd ar y ddaear. Onid oes 'na ganllawiau gwell i'w dilyn na llwyddiant economaidd ac ennill rhyfeloedd?

Os oes rhai o'r pethau hyn wedi croesi'ch meddwl chi rywdro, yna mae gan y Twr Trafoli rywbeth i'w gynnig i chwi - "no obligation" ys dywed y Sais! Byddwn yn cyfarfod bob yn ail wythnos - unwaith y mis ar nos Lun yng Nghlwb Ifor Bach, a thro arall yn nhy rhywun, fel arfer dros damaid o ginio ar ddydd Sul. Hefyd, mae 'na gynlluniau ymarferol ar y gweill e.e. llythyrau ar ran Amnest Rhyngwladol, recordio llyfrau ar dap i'r deillion, ymweud a'r di-gartref yng Nghaerdydd - croesewir awgrymiadau! (Gyda llaw, casglodd y TT bron i £600 tuag at Gymorth Cristnogol mewn noson o weithgaredd noddedig y llynedd).


Hoffem bwysleisio nad oes math o gystadleuaeth rhwng y Twr Trafoli a'r eglwysi yng Nghaerdydd - yn hytrach, ceisio llenwi ambell i fwlch y mae yn y ddarpariaeth a geir, yn enwedig yr elfen genhadol efallai.

Felly estynnir gwahoddiad agored i bwy bynnag sydd a diddordeb ddod am dro efo ni bnawn Sul, Hydref 12fed - rywle y tu allan i Gaerdydd! Darperir cludiant, a gofynnir i bawb ymgynull am 2.30 ar waelod grisiau Undeb y Myfyrwyr (Park Place). Hefyd ym mis Hydref, cyfarfod ar nos Lun 20fed am 8 o'r gloch yng Nghlwb Ifor Bach - "Gwrandewch am Unwaith" - sef thema Wythnos Un Byd.

Os am fanylion pellach am yr uchod, croeso i chwi gysylltu a Sian (26958) neu Eirian (465278).

Yn y cyfamser, ystyriwch - a oes gan y Twr Trafoli rywbeth i'w gynnig i chwi?

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 65



### Ar Draws

1. Gwnaed tro gwael a'r dyn o gyrraedd yr isafbwynt (2,4'1,7)
9. Mi fentrais fy mhres (7)
10. Hen lestri oddiar dresel fy mam (7)
11. Swp (4)
12. Merch ydi Ann a all fod yn ddywedwst iawn (10)
14. Ceirw bychain gosgeiddig y collir mil ohonynt wrth iddynt ymdrochi yn wyllt (6)
15. Wrthi'n gwneud yn amlwg (2,6)
17. Ai cloddio deunydd metel o'r ddaear a wnewch wrth ichi gael pleser? (8)
18. Mae gan y gwcw allu o'i mewn sy'n ei gwneud yn fedrus (6)
21. Daw trefn o annibendod stwr y claddu (10)
22. Llythyren gyfansawdd ddychrynllyd sy'n dwyn crych (4)
24. Bydded iddo wasgu 'mlaen i'r ffrynt (7)
25. Mab neu ferch (7)
26. Nid yw gwyl Sian A yn iawn heb ei rhagweld (14)

### I Lawr

1. Mae lle i wella yma ac acw (7
2. Cloron di-fling (5,4'1,5)
3. Nawr i fyny'r Gogledd (4)
4. Tair sy wedi gosod cyfarwyddyd (6)
5. Ymadawedig (4,4)
6. Llyfrau ar lyfrau yn y Beibl (10)
7. Diofalwch y "gwyliwr ar y tŵr" (4,11)
8. Nid oes dim yn peri iddo ddigwydd (6)
13. Chwenychai yn agored groen gwinau (10)
16. Cam (8)
17. Tameidiau byr ymfflamychol allan o lyfr weithiau (6)
19. Gellir cael gwr yno o bosib ag enw cyffredin (7)
20. Chwiw (6)
23. Bu'r colera yn farwol iddo (4)

### DATRYSIAD CROESAIR RHIF 64

Ar Draws:
1. Cydnaws; 5. Padelleg; 9.Tafl-egrau; 10.Raser; 11.Ach-Y-Fi; 12.Arllwysais; 14.Codi Ysgyfarn-og; 17.Y cyntaf i'r felin; 21. Penllwydni; 23.Gwerth; 24.Ymbil; 25.Stiwardio; 26.Nodaist; 27. Dinertha

I Lawr:
1.Cytiau; 2.Difwyno; 3.Apeliaist 4.Sir Faesyfed; 5.Plu; 6.Dirwy; 7.Llys Barn; 8.Gwresogi; 15. Abergwaun; 16.Mympwyon; 18.Yn nabod; 19.Iselder; 20.Athrofa; 22.Wylai; 25.Sut

### CYSTADLEUAETH RHIF 64

Dwy ymgais yn unig a ddaeth i law cyn y bu raid i rifyn Hydref fynd i'r wasg. Yr oedd y ddwy yn hollol gywir, ond yr enw a dynnwyd oedd eiddo Iwan Jones, 38 Thornhill Road, Llanishen. Bydd y tocyn llyfrau ar ei ffordd iddo gyda hyn. Gyda llaw, ni dderbyniwyd cyfeiriad llawn A.R.R. Abertawe. Mae tocyn llyfr yn ei aros pan ddaw'r cyfeiriad i law.

### CYSTADLEUAETH RHIF 65

Yr enw, neu ffugenw, ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn Hydref 25ain, os gwelwch yn dda.

# Agor Uned Newydd

Ym 1981, cychwynodd Cyngor Henoed Cymru ymgyrch arbennig - Adweithio yng ngwyneb trais yn erbyn yr henoed (Action Against Crime and the Elderly). Ceisiwyd addysgu'r henoed i gymryd camau i atal neu i leihau troseddu yn eu herbyn - nid i beri ofn ond i ddarparu rhywfaint o esmwythder meddwl yng ngwyneb y cynnydd mewn trais.

O'r ymgyrch yma, ffurfiwyd mudiad newydd yng Nghaerdydd yn 1982, sef Cardiff Victim Support Scheme, fel mudiad annibynnol i gynorthwyo pob oedran. Cyhoeddwyd adroddiad gan y Swyddfa Gartref fod mwy o fictimau ymhlith yr oedran 17-35 nag ymhlith y rhai dros 60 oed. Roedd hynny yn gysur i'r henoed. Y gwir oedd fod yna gymorth yn cael ei roi i'r troseddwr a'i deulu, a hynny yn iawn, ond bach o gymorth a roed i'r rhai a ddioddefodd mewn canlyniad i droseddu. Felly'r mudiad newydd i roi help i'r rhai a ddioddefodd y trauma wedi ymosodiadau corfforol, lladrata, a thorri i mewn i gartrefi a chael colledion.

Gyda help cynghorwyr hyfforddiedig gwirfoddol, cynorthwywyd rhyw 1500 o bersonau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Aed gam ymhellach ar y 12fed o Fedi pan agorwyd yn y Ty Gwyn, Ysbyty Dewi Sant y Crimestress Unit - canolfan lle y gall derbynwyr y drosedd encilio am awr neu ddwy a chael cymorth emosiynol i ddod dros y drosedd ac i dawelu eu meddwl gan gynghorwyr profiadol. Cafodd ei agor yn swyddogol gan Arglwydd Faer Caerdydd, Y Cynghorydd David Myfyr Evans ym mhresenoldeb yr Arglwydd Faeres, Dirprwy Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, Prif Oruchwylwyr Mr. John I. Davies, Is-Ysgrifennydd Y Swyddfa Gymreig, Aelodau'r Pwyllgor Gwaith a gwirfoddolwyr.

Bydd y ganolfan yn agored i unrhyw un i droi i mewn sy'n byw mewn ofn o droseddu yn eu herbyn. Yn anffodus mae 'na nifer fawr yn ofni hyn. Cânt bob cymorth a chyfarwyddyd ynghyd â chydymdeimlad a chlust parod i wrando.

Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath ym Mhrydain ac yn wir yn Ewrop.

Rhaid cydnabod haelioni dibendraw Howells Caerdydd a ddarparodd yr holl ddodrefn, carpedi ar gyfer yr uned i'w wneud yn lle esmwyth gydag awyrgylch briodol yn unol a'r dasg o leddfu profiad chwerw.

Os oes unrhyw un yn teimlo fel rhoi o'i amser i fod yn gynghorwr yn wirfoddol, byddem yn falch o glywed oddi wrthynt.

D. Haydn Thomas, Cadeirydd CVSS, White House, Ysbyty Dewi Sant, Caerdydd. Ffôn: 20105.

O.N. Oes gan unrhyw un syniadau am deitl Cymraeg i'r Uned? Y teitl Saesneg yw Crimestress Unit.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffôn: 562816.

HYDREF

12 - Eglwys Efengylaidd Gymraeg
(Yn cyfarfod yn awr yn adeilad Cardiff City Mission, Croft Street, Plasnewydd. Am 4.30 Te Croeso i'r Myfyrwyr.

12 - Cymdeithas y Dysgwyr
Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon.
Siaradwr: Idwal Walters

13 - Clwb Ifor Bach
Cymdeithas Wyddonol Caerdydd a'r Cylch

14 - Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd
Neuadd Bethel, Capel y Bedyddwyr, Heol Penlline. 7.30
John Howard Davies, Y Llywydd.

17 - Clwb Ifor Bach
Noson yng ngofal clwb rygbi Clwb Ifor Bach.

18 - Clwb Ifor Bach
Heather Jones a'r Grŵp & Catraeth

18 - Merched y Wawr
Gwyl Grefftau ac Arddangosfa yn Festri Ebenezer, Heol Siarl, 2.30.

18 - Eglwys Efengylaidd Gymraeg
Dathlu symud i'r adeilad newydd. Cyfarfodydd am 3.00 a 6.00
Pregethir gan y Parch. Geraint Elfyn Jones.

25 - Clwb Ifor Bach
Tan Tro Nesa

29 - Cylch Cinio Cymraeg y Barri
Noson y Gwragedd
Gwestai: Mallt Anderson

TACHWEDD

7 - Festri Ebenezer
Noson Gerddorol gan David Elias.

11 - Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd
Neuadd Bethel, Capel y Bedyddwyr, Heol Penlline. 7.30
Wynne Lloyd.


TIM RYGBI CLWB IFOR BACH

Croeso i'r sawl sydd â diddordeb i gysylltu a Gwynfor Davies, 754003 neu Alan Jobbins 623275 i drefnu gem.

CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

# LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Geraint a Carys Hall Evans o'r Barri ar enedigaeth merch fach - Elin - wyres gyntaf Richard a Nia Hall Williams ond Alcwyn a Llywela Evans yn fwy profiadol yn y maes! Dymuniadau da i'r ddwy ochr o'r teulu, ac i Geraint, Carys ac Elin sydd rwan yn 'deulu bach'.

Llongyfarchiadau i Eleri a John Shepherd ar enedigaeth mab - Sion Alun - brawd bach i Owain; Dilys a Gunstone Jones yn daid a nain unwaith eto!

Llongyfarchiadau i Helen a Ceri Preece ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. Ganed y bychan, Mathew Thomas Daniel, ar Fedi'r 12fed. Dymunwn yn dda i'r teulu bach.

Llongyfarchiadau i Graham a Rhian Lloyd ar enedigaeth mab - Rhodri - brawd newydd i Siwan.

Llongyfarchiadau i Aled Islwyn ar ei nofel ddiweddara 'Pedolau Dros y Crud'. Ymfalchiwn yn llwyddiant Cyn-Olygydd Y Dinesydd.

Dyrchafwyd Miss Lynette Jones, Nantycaws, Caerfyrddin a fu'n byw yng Nghaerdydd am amser tra'n athrawes yn Ysgolion Cymraeg Caerffili ac Ifor Bach, yn Brifathrawes Ysgol Gymraeg Glan y Fferi, ar ôl peth amser fel dirprwy yno.

Llongyfarchiadau i Lyn Howell ar ddathlu ei benblwydd yn ddiweddar yn 80 oed. Dymunwn iechyd a hir oes iddo.

## O LAW I LAW

Dymunwn yn dda i Eirion ac Avril Lewis yn eu cartref newydd - Glyn Rhosyn, 24 Eton Court, Ffordd Maesycoed.

Dyna braf yw cofnodi mai Cymry Cymraeg sydd wedi prynu cartref Eirion ac Avril Lewis, Glyn Rhosyn, 3 Derwen Rd., Cyncoed. Croeso cynnes i Gareth a Tessa Adams a'r plant Steffan a Dylan. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# NEWYDDION

CROESO NOL I GYMRU I FRERE DAVID

Un o uchafbwyntiau'r Eisteddfod i lawer ohonom oedd cael cwrdd ag Alun Jones ar Faes yr Eisteddfod. Bu allan yn Ffrainc yn Fynach am flynyddoedd a thra'n aildrefnu'i waith a'i Fynachlog, mae wedi cael dod draw atom ni. Roedd yn edrych yn iach, yn iau os rhywbeth, ond wedi cadw yr un ysbryd bywiog a'i gariad at fyw.

Brawd Huw Jones, Sain gynt, yw Alun Idris. Roedd yn siarad â ni yn ei Gymraeg naturiol a rhyw acen Ffrangeg hyfryd iddi ond roedd ei asbri a'i ddiddordeb ym mhopeth yr un. Croesawn ef yn ôl atom. Un o gymeriadau hoff Caerdydd fu Alun Idris erioed ac fel y Frere David yn ei gyfweliad gyda'i frawd, Huw Jones, rai blynyddoedd yn ôl bellach, fe'n heriodd ni i gyd i wrando ar ei safiad arbennig a'i ymlyniad newydd i'r Ffydd Babyddol. Braf iawn oedd cael ei weld a chael sgwrs ar y Maes ynghanol y mwd.

## Cydymdeimlo

Bu farw un o ddarllenwyr hynaf a ffyddlonaf Y Dinesydd, sef Mrs. Lena Prosser. Roedd Mrs. Prosser yn 87 mlwydd oed ac yn aelod yng Nghapel Minny Street am dros hanner can mlynedd. Estynnwn ein cydymdeimlad a'i mab, Alwyn, sydd newydd ymddeol fel athro Cymraeg yn Ysgol St. Cyres, Penarth; a'i merch, Ann, sydd yn anffodus yn cael triniaeth yn yr ysbyty yng Nghaerffili ar hyn o bryd.

Y Diweddar Anne Thomas

Trist yw cofnodi marwolaeth Anne Thomas o Talbot Green, gynt o Ddinas Powis, ac yn enedigol o Ferndale, Cwm Rhondda. Priod ffyddlon ac annwyl Griff oedd Anne a mam dirion Alun, Gareth a Bethan Claire, a mam-yng-nghyfraith Elaine a Karen ac efeilles anwylaf Dorothy. Mawr fydd y golled ar ei hol ond peraidd fydd yr atgof am ei gwen siriol a'i ymateb ffraeth, er gwaethaf blinder yr afiechyd creulon a'i goddiweddodd. Cydymdeimlwn yn ddwys a'r teulu yn eu hiraeth.

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Mr. Oswald Davies, St. Augustine Ave., Y Mynydd Bychan, a fu farw ddiwedd mis Medi. Mae ei ferch, Lynn, yn byw gyda'i theulu ym Manceinion.

Diolch yn fawr i Eifion ac Owena Hopwood am eu cyfraniad i goffrau'r Dinesydd ac hefyd i Gymdeithas Gymraeg Dinas Powys am eu cyfraniad hwythau.

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Tachwedd at: Shan Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn Hydref 19.

Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.